Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Y Rhaglen Athrawon Graddedig

Arweiniad i'r Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2006

Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 035/2008
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2009
Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 06/2006

Y Rhaglen Athrawon Graddedig

Cynulleidfa

Ysgolion, Sefydliadau Addysg Uwch, awdurdodau addysg lleol, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a'r rheini sydd â diddordeb yn y Rhaglen Athrawon Graddedig.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth am y llwybrau trwy gyflogaeth i addysgu a fydd yn arwain at ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Camau i'w cymryd

Ystyried yr arweiniad hwn wrth wneud cais am y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth estynedig, neu ei gynnal, neu weithredu fel Corff Argymell neu Gorff Noddi at ddiben y Cynllun.

Rhagor o wybodaeth

Tîm y Rhaglen Athrawon Graddedig
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5171 neu 029 2082 5838
E-bost: teachingenquiries@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Cewch ragor o gopïau o'r ddogfen hon drwy ffonio'r rhifau uchod neu drwy e-bostio'r cyfeiriad uchod.
Hefyd, cewch gopi o'r ddogfen hon o'r wefan www.teachertrainingwales.org/amgen.htm

Dogfennau cysylltiedig

Dod yn Athro Cymwysedig – Dogfen Wybodaeth yr AADGOS Rhif 021-06
Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau – Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 41/2006
Dogfen Cyflogau ac Amodau Cyflogaeth Athrawon Ysgol a Chanllawiau ar Gyflogau ac Amodau Cyflogaeth Athrawon Ysgol (Cyhoeddwyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) *(Saesneg yn unig)*
Y Rhaglen Athrawon Graddedig – Blaenoriaethau a Gweithdrefnau yng Nghymru
Deddf Diogelu Data 1998
Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004
Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004
Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008

© Hawlfraint y Goron Chwefror 2009
D4890809

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	1
Dehongli	2
Y Rhaglen Athrawon Graddedig	3
Sut i wneud cais	3
Y Corff Argymell	4
Cyflogi hyfforddeion sydd ar gynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth	4
Statws athrawon o dan y Rhaglenni	5
Grantiau a mathau eraill o gyllid	5
Isafswm gofynion mynediad	7
Cymwysterau - gofynion ychwanegol	7
Athrawon peripatetig	7
Gwneud cais	7
Argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant	8
Ysgolion lle bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal	9
Rhaglenni hyfforddi	10
Statws dros dro fel athro graddedig	11
Hyfforddiant	12
Dod â'r caniatâd i ddilyn rhaglen hyfforddi i ben	12
Ymestyn neu adfer awdurdod blaenorol i hyfforddi	12
Asesu hyfforddeion	13
Athrawon a Hyfforddwyd Dramor - asesu SAC ac Ymsefydlu ar y cyd	14
Swyddogaeth yr asesydd allanol	14
Camau i'w cymryd pan fo'r asesiad yn llwyddiannus	15
Y sefyllfa os na chaiff SAC ei argymell	15
Y Ddeddf Diogelu Data	16

Atodiad A - Y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2006 Rhif 8

Atodiad B - Y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2006 Rhif 74 (Diwygio)

Atodiad C - Canllawiau ar y weithdrefn os na chaiff SAC ei argymell, ac ar y Weithdrefn Apelio ar gyfer Hyfforddeion

Crynodeb

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i lwybrau i addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth a fydd yn arwain at ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC).

2. Bydd pob llwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ("y Cynllun") a geir yn Atodiad A. Gwnaed y cynllun hwn gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o dan Reoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004. O dan Reoliad 8(5), rhaid i'r rheini sydd â swyddogaethau o dan y Cynllun ystyried yr arweiniad hwn.

3. Dylech ddarllen yr arweiniad drafft hwn ar y cyd â'r Cynllun a geir yn Atodiad A, a'r newidiadau i'r cynllun yn Atodiad B.

4. Gwnaed y Cynllun ar 24 Chwefror 2006 ac ar hyn o bryd y mae'n cynnwys y Rhaglen Athrawon Graddedig. Diwygiwyd y cynllun ar 14 Tachwedd 2006 i ddiwygio gofynion dilysrwydd yr hyfforddeion sy'n bwriadu dod yn athrawon ysgolion cynradd.

Dehongli

Heblaw lle y mae'r cyd-destun yn awgrymu fel arall, at ddiben yr arweiniad hwn –

ystyr "Llywodraeth Cynulliad Cymru" yw adain weithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys aelodau o Gabinet y Cynulliad, ynghyd â staff sy'n gweithio iddynt, ac sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "addysgu" yw cyflawni gwaith o unrhyw fath sydd wedi ei bennu gan reoliadau a wnaed o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002[1];

ystyr "cyflogaeth" yw cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth, neu dalu person i ddarparu gwasanaethau heb fod o dan gontract cyflogaeth, a dylid dehongli cyfeiriadau at fod yn gyflogedig yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ac "y Cynllun" yw'r cynllun a sefydlwyd o dan Reoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004;

ystyr "corff argymell" yw'r corff sy'n trefnu'r hyfforddiant sy'n cael ei roi neu a fydd yn cael ei roi i'r person a enwir mewn argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;

ystyr “athro graddedig" yw person y rhoddwyd caniatâd iddo neu iddi ymgymryd â hyfforddiant, fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, trwy gyfrwng y Rhaglen Athrawon Graddedig, yn unol â pharagraff 7 o'r Cynllun;

ystyr "ysgol" yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, heblaw uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig nas cynhelir felly, neu ysgol annibynnol.

[1] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004, OS 2004/1744, yw'r rhain.

Adran 1: Y Rhaglen

Y Rhaglen Athrawon Graddedig

1. Ffordd o ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) drwy gael hyfforddiant sy'n seiliedig ar gyflogaeth yw'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG). O dan y Rhaglen Athrawon Graddedig, gall graddedigion sydd heb SAC gael caniatâd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgymryd â hyfforddiant mewn ysgol wrth ddilyn rhaglen hyfforddi gymeradwy. Mae'r RhAG yn rhoi cyfle i bobl addysgu mewn ysgol gan ddilyn rhaglen hyfforddi gymeradwy fydd yn eu galluogi i fodloni safonau'r SAC.

2. Gall athrawon sydd wedi'u hyfforddi dramor, ac sydd wedi cwblhau rhaglen hyfforddi proffesiynol ar gyfer athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig (ac sy'n cael ei chydnabod fel rhaglen hyfforddi felly gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno) ond nad oes ganddynt SAC, hefyd wneud cais i'r RhAG[2]. Mewn rhai amgylchiadau, gellir eu hasesu hefyd yn erbyn y Safonau Ymsefydlu ar yr un pryd â'r safonau SAC - gweler paragraffau 62-64.

3. Blwyddyn yw hyd y RhAG fel arfer, tra gall y rheini sydd eisoes â phrofiad neu arbenigedd ond y mae angen rhywfaint o hyfforddiant arnynt o hyd gwblhau'r rhaglen mewn tri mis, man lleiaf.

4. Ceir manylion am y modd y mae'r rhaglen yn gweithredu ar dudalen 10.

Sut i wneud cais

5. Yng Nghymru Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n trafod y RhAG yn uniongyrchol. I gael lle ar y rhaglen, rhaid i ddarpar hyfforddai ddod o hyd i ysgol sy'n barod i'w gyflogi fel hyfforddai graddedig neu mae'n rhaid ei fod eisoes yn gweithio i ysgol sy'n barod i'w gynorthwyo drwy'r rhaglen hon. I'r rheini sydd am wneud cais i'r RhAG, mae ffurflen wedi'i pharatoi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef Cwestiynau Cyffredin. Ar gefn y Cwestiynau Cyffredin mae gwybodaeth am "Swyddi Dysgu Gwag yng Nghymru" i helpu hyfforddeion i ddod o hyd i swydd hyfforddi. I gael gweld fersiwn ddiweddaraf y ffurflen, ewch i http://www.teachertrainingwales.org/alternative.htm.

6. Rhaid i geisiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rhywun sydd am wneud cais i'r RhAG ddod trwy gorff argymell (gweler paragraffau 8 a 9).

7. Ceir manylion ynghylch sut i wneud cais i'r RhAG ar hyn o bryd mewn dogfen ar wahân, Blaenoriaethau a Gweithdrefnau' a lunnir yn flynyddol. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys manylion am unrhyw grant a allai fod ar gael i ysgolion a chyrff argymell sy'n cynorthwyo hyfforddeion sy'n dilyn y RhAG. Mae modd cael copïau

[2] Mae pobl o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Guernsey, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (sef gwledydd yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) a'r Swistir sydd wedi cymhwyso fel athrawon yn eu gwlad eu hunain ar sail yr hyn a nodir yn Atodlen 2 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 yn athrawon cymwysedig, ac nid ydynt angen dilyn y RhAG er mwyn ennill SAC. Serch hynny, ar wahân i athrawon yn Lloegr, bydd angen iddynt gael cadarnhad o'u statws cymwysedig oddi wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru - gweler Rheoliadau 5 a 6 o Reoliadau 2004.

gan http://www.teachertrainingwales.org/alternative.htm. Mae'r rhifau cyswllt ar flaen y ddogfen hon.

Y Corff Argymell

8. Y corff argymell fydd yn gyfrifol am wneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ganiatâd hyfforddiant ac a fydd yn gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen hyfforddi.

9. Gall cyrff argymell fod yn ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA); ysgolion a gynhelir neu ysgolion annibynnol yng Nghymru a gymeradwywyd fel cyrff argymell gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; awdurdodau addysg lleol (AALlau); a chyrff eraill a all gwrdd â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gall cyflogwr yr hyfforddai (y 'corff perthnasol' - fel arfer yr ysgol neu weithiau yr awdurdod addysg lleol) hefyd weithredu fel corff argymell, ond nid oes rhaid iddo wneud hynny.

10. Rhaid i gorff argymell fedru cynllunio a darparu rhaglen hyfforddi sy'n seiliedig ar gyflogaeth fel bod hyfforddai yn medru dangos i asesydd allanol annibynnol ei fod yn cwrdd â'r safonau sy'n ofynnol i ennill SAC. Mae mwy o wybodaeth am raglenni hyfforddi ym mharagraffau 37-41 o'r ddogfen hon. Drwy'r modd y mae'r rhaglen wedi'i chynllunio a'i darparu, bydd yn rhaid iddi:-

a. archwilio sgiliau'r hyfforddai ac asesu ei anghenion;
b. dyfeisio rhaglen hyfforddi addas;
c. cyflwyno'r rhaglen i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w chymeradwyo a, lle bo angen hynny, gofyn am ganiatâd i'r hyfforddai ymgymryd â hyfforddiant mewn ysgol lle mae angen SAC fel arfer;
d. sicrhau bod y rhaglen hyfforddi gymeradwy yn cael ei darparu, a delio ag unrhyw gwynion am y ffordd y caiff ei darparu;
e. monitro ac asesu cynnydd yr hyfforddai yn rheolaidd a pharhaus yn erbyn y safonau sy'n ofynnol ar gyfer SAC, a chadw cofnodion manwl a fydd hefyd ar gael i'r asesydd allanol; a
f. rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am unrhyw newidiadau i'r rhaglen gymeradwy.

11. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel ffordd o sicrhau ansawdd, fonitro perfformiad cyrff argymell. Gellir gwneud hyn, er enghraifft, drwy roi holiaduron i gyrff argymell a hyfforddeion, drwy ffonio, neu drwy fod staff Llywodraeth Cynulliad Cymru a/neu gynrychiolwyr penodedig yn ymweld ag ysgolion.

Cyflogi hyfforddeion sydd ar gynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth

12. Cyflogwr yr hyfforddai sy'n gyfrifol am gytuno ar delerau ac amodau'r hyfforddai, gwneud trefniadau ar gyfer cyflog a phensiwn, cynnal yr holl wiriadau angenrheidiol cyn penodi - er enghraifft ffitrwydd meddygol a chofnod troseddol - a delio â materion disgyblaeth.

13. Rhaid i bob ysgol yn y sector a gynhelir sy'n cyflogi athrawon ar le hyfforddiant RhAG dalu cyflog i'r hyfforddai ac unrhyw gostau eraill fel y nodir yn y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol, yn ogystal â bodloni unrhyw ofynion eraill o ran cyflogaeth. Bydd y gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen hyfforddiant yn cael ei dal yn ôl neu ei thynnu'n ôl os na ellir cydymffurfio â hyn. Dylid nodi mai cyfraniad tuag at gostau cyflog hyfforddai yw unrhyw grant cyflog RhAG sy'n cael ei ddyfarnu i ysgol. Efallai na fydd yn talu'r holl gost ac nid yw'n awgrymu y dylai cyflog yr hyfforddai fod gyfwerth â'r grant nac yn golygu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n talu cyflog yr hyfforddai (gan mai cyfrifoldeb y cyflogwr yw hynny).

14. Yn unol â hynny, os yw unrhyw hyfforddai yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch byrdymor neu hirdymor, cyfnod mamolaeth neu gyfnod tadolaeth, rhaid i'r ysgol gyflawni ei dyletswyddau statudol o ran cyflog salwch a hawliau mamolaeth a thadolaeth.

Statws athrawon o dan y rhaglenni

15. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004, ni all unrhyw un wneud gwaith sydd wedi'i bennu yn rheoliad 6 – hy: addysgu mewn ysgol a gynhelir - oni bai eu bod yn athrawon cymwysedig, neu'n bodloni'r gofynion yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau. Mae Atodlen 2 yn cynnwys pobl sy'n cael eu hyfforddi at ddibenion y Cynllun; gall y cyfryw bobl gyflawni "gwaith penodedig" mewn ysgol nes byddant naill ai'n cwblhau'r hyfforddiant hwnnw'n llwyddiannus neu'n peidio ag ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw rhagor.

16. Felly, o dan y Cynllun nid yw hyfforddeion sydd wedi cael caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG yn athrawon cymwysedig, ond gallant ddysgu mewn ysgol.

Grantiau a mathau eraill o gyllid

17. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu grantiau i ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir sy'n cyflogi pobl sydd wedi derbyn caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG. Diben y grantiau hyn fydd talu cyfran neu'r cyfan o gostau cyflogau y bobl hynny ("grantiau cyflog" - gweler hefyd baragraff 13). Nid yw'r grantiau hyn fel arfer ar gael i ysgolion annibynnol.

18. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ddarparu grantiau i gyrff argymell sy'n darparu hyfforddiant at ddibenion y RhAG, er mwyn talu cyfran neu'r cyfan o gostau'r hyfforddiant ("grant hyfforddiant"). Fel arfer, nid yw'r grantiau hyn ar gael i ysgolion annibynnol oni bai eu bod yn gweithredu fel corff argymell ar gyfer rhaglen hyfforddi sy'n cael ei chynnal mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir.

19. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu unrhyw gostau y mae'n eu hystyried yn briodol ac yn gysylltiedig â chais ar gyfer hyfforddiant o dan y Cynllun, ac asesiad dilynol yn erbyn Safonau SAC. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu talu costau'r cynghorwyr y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cyflogi i asesu rhaglenni hyfforddi arfaethedig cyn eu cymeradwyo, a chostau aseswyr annibynnol sy'n datgan a fodlonwyd y Safonau SAC ar ddiwedd y rhaglenni.

20. Yn achos pob grant, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu swm unrhyw grant y mae'n ei ddarparu ar lefel y mae'n ei ystyried yn briodol. Gall hefyd gyfyngu nifer y grantiau sy'n cael eu cynnig, neu ddarparu'r grantiau hynny pan fo'r hyfforddiant RhAG yn cael ei gynnal mewn cyfnodau neu bynciau penodol yn unig. Cyn darparu unrhyw grantiau neu gostau eraill mewn unrhyw flwyddyn ariannol, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi datganiad yn nodi'r grantiau a'r costau hynny, a faint ohonynt fydd ar gael.

21. Gellir ei gwneud yn ofynnol i ysgol neu gorff argymell ddychwelyd cyfran neu'r cyfan o unrhyw grant a ddarparwyd os yw cyfnod yr hyfforddiant, am ba reswm bynnag, yn fyrrach na'r cyfnod hyfforddiant a nodwyd pan roddwyd y grant. Bydd swm y grant cyflog sydd angen ei ddychwelyd yn cael ei seilio ar gyfran y cyfnod hyfforddi (a nodwyd pan roddwyd y grant) pryd na ddarparwyd unrhyw hyfforddiant. Bydd swm unrhyw grant hyfforddi sydd angen ei ddychwelyd gyfwerth ag unrhyw gyllid grant na ddefnyddiwyd mohono erbyn yr adeg y daeth yr hyfforddiant i ben.

Adran 2: Y modd y mae'r RhAG yn gweithredu

Isafswm gofynion mynediad

22. Rhaid i bawb sy'n cychwyn ar gwrs Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fodloni safon ofynnol o ran cyrhaeddiad addysgol.

23. Bydd angen i ymgeiswyr ar gyfer y RhAG:-

a. feddu ar radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad addysgol yng Nghymru neu Loegr, neu gymhwyster o safon gyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad addysgol yn rhywle arall;

b. fod wedi cyrraedd y safon sydd ei hangen i ennill tystysgrifau TGAU (neu gyfwerth) Gradd C neu uwch mewn Saesneg a mathemateg;

c. pan fo'r hyfforddai yn addysgu plant o dan 11 oed, fod wedi cyrraedd y safon sydd ei hangen er mwyn ennill tystysgrif TGAU Gradd C neu uwch mewn pwnc gwyddoniaeth sengl neu mewn pwnc gwyddoniaeth gyfun; ac

d. os yw'n berthnasol, fod wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ac sy'n cael ei chydnabod fel rhaglen hyfforddiant o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno.

Cymwysterau - gofynion ychwanegol

24. Rhaid i bob ymgeisydd cyfnod uwchradd sy'n ymgymryd â hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth gael pwnc arbenigol. Bydd cynghorwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych a oes cysylltiad agos rhwng y pwnc arbenigol a ddewiswyd a phwnc y radd. Dyma'r prif bwnc, neu yn ddelfrydol yr unig bwnc, y bydd yr ymgeiswyr yn ei addysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Bydd angen iddynt addysgu eu pwnc arbenigol ar draws un ystod oedran o blith y rhain: 11-16, 11-18 neu 14-19.

Athrawon Peripatetig

25. Yn achos ceisiadau gan athrawon peripatetig, bydd yr amser y bydd yr ymgeiswyr yn ei dreulio fel hyfforddai RhAG yn ddigon i'w galluogi i ennill profiad yn addysgu dosbarthiadau cyfan a gweld gwaith a bywyd yr ysgol. Fodd bynnag, rhaid i hyfforddeion RhAG dreulio isafswm o ddau ddiwrnod yr wythnos mewn ysgol.

Gwneud Cais

26. Cewch ffurflenni cais yn www.teachertrainingwales.org/alternative.htm. Dylai ceisiadau gael eu hanfon gan y Corff Argymell ar ffurf electronig i: ebttsapps@wales.gsi.gov.uk.

Argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant

27. Er mwyn cychwyn ar y RhAG, rhaid derbyn caniatâd i ymgymryd â'r hyfforddiant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru dderbyn argymhelliad ffurfiol oddi wrth y corff argymell am ganiatâd i hyfforddai ymgymryd â'r RhAG, gan gynnwys y rhaglen hyfforddi arfaethedig (gweler paragraffau 37-41 isod).

28. Rhaid i argymhelliad gan y corff argymell am ganiatâd i hyfforddai RhAG ymgymryd â hyfforddiant o dan y Cynllun gynnwys datganiad gan y corff argymell:-

a. bod yr ymgeisydd, ym marn y corff argymell, yn berson addas i'w gyflogi fel athro/athrawes mewn ysgol;

b. bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a amlinellir ym mharagraff 23, a'i fod wedi dangos y tystysgrifau gwreiddiol ar gyfer cymwysterau TGAU a gradd;

c. bod y gwiriadau troseddol (hy: y Swyddfa Cofnodion Troseddol), y gwiriadau meddygol a'r gwiriadau Rhestr 99 wedi'u cynnal ar yr ymgeisydd;

d. bod yr ymgeisydd, ym marn y corff argymell, yn gallu cyfathrebu'n glir yn llafar ac yn ysgrifenedig mewn Saesneg a/neu Gymraeg safonol yn ôl y gofyn; ac

e. unrhyw ofynion eraill y mae eu hangen ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

29. Rhaid i'r argymhelliad hefyd gynnwys manylion yr hyfforddiant arfaethedig y bwriedir ei roi i'r hyfforddai a hyd y cyfnod hyfforddi arfaethedig. Rhaid i hyd y cyfnod hyfforddi arfaethedig fod yn briodol ar gyfer anghenion yr hyfforddai o ran profiad a hyfforddiant dysgu ymarferol. Yn achos yr argymhelliad cyntaf ar gyfer y RhAG, lle bydd yr hyfforddai yn cael ei gyflogi'n llawn-amser, rhaid i'r cyfnod fod yn dri mis o hyd, o leiaf, a dim hwy na blwyddyn. Yn achos y RhAG, rhaid i'r cyfnod hyfforddi arfaethedig fod yn flwyddyn o hyd, o leiaf, a dim hwy na dwy flynedd.

30. Rhaid i argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant hefyd gynnwys enw'r sefydliad neu'r corff a fydd yn cyflogi'r hyfforddai, a rhaid iddo gynnwys manylion yr ysgol neu'r ysgolion lle bydd yr hyfforddai yn ymgymryd â'i hyfforddiant (gweler paragraffau 33-36).

31. Cyn anfon cais i mewn, rhaid i'r corff argymell ofalu bod anghenion yr hyfforddai wedi cael eu hasesu drwy arsylwi sgiliau addysgu dros gyfnod o 15 diwrnod fan lleiaf. Y cyflogwr sydd i benderfynu a ddylid penodi ymgeisydd i'r swydd cyn iddo gofrestru neu ar ôl iddo gofrestru.

32. Bydd staff Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol y Cynulliad yn anfon pob cais ymlaen at gynghorwyr annibynnol. Bydd y cynghorwyr yn cysylltu â'r corff argymell yn uniongyrchol i ddatrys unrhyw broblemau â'r cais. Wedyn, bydd y cynghorwyr annibynnol yn cyflwyno cyngor ysgrifenedig i staff yr Is-adran gan nodi p'un ai a ddylid derbyn neu wrthod y cais. Pan fo'r ceisiadau wedi'u cyflwyno'n electronig, bydd staff yr Is-adran yn gwirio bod copïau caled o'r datganiadau wedi dod i law cyn hysbysu'r corff argymell o ganlyniad y cais.

Ysgolion lle bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal

33. Cyn y gall hyfforddai gael caniatâd, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn gwbl siŵr bod yr ysgol(ion) lle bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn medru darparu'r hyn sydd ei angen ar yr hyfforddai i fodloni'r safonau perthnasol.

34. Mae'n rhaid bod ysgolion lle bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn cyflwyno'r Cwricwlwm Cenedlaethol fan leiaf - sef Maes Llafur y cytunwyd arno neu'r maes llafur enwadol priodol yn achos Addysg Grefyddol - yn y pynciau y mae'r hyfforddai yn eu cynnig neu, yn achos pynciau nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn eu cynnig i lefel arholiad cyhoeddus. Hefyd, bydd rhaid i ysgolion roi digon o gymorth beunyddiol i'r hyfforddeion i'w galluogi i addysgu disgyblion hyd at y lefel a'r safonau sy'n ofynnol gan y Cwricwlwm Cenedlaethol, a rhoi cyfle iddynt arsylwi'n rheolaidd ar enghreifftiau o addysgu effeithiol.

35. Bydd llawer o'r hyfforddeion yn cael eu cyflogi gan un ysgol yn unig, ond gall eu rhaglen hyfforddi gynnig profiad o addysgu mewn o leiaf un ysgol arall yn y cyfnod addysgu, yn enwedig os nad yw'r hyfforddai wedi cael llawer o brofiad blaenorol. Ym mhob achos mae angen i'r rhaglen hyfforddi, o'i chymryd ar y cyd â phrofiad blaenorol, fod yn baratoad addas ar gyfer addysgu pob oedran yn y cyfnodau addysgu cynradd neu uwchradd mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir.

36. Dyma'r sefyllfa os ydych yn ystyried hyfforddiant mewn sefydliadau heblaw ysgolion cynradd neu uwchradd prif ffrwd a gynhelir:-

a. **Ysgolion arbennig**: ar y cyfan, nid yw hyfforddiant sydd wedi'i leoli yn bennaf mewn ysgol arbennig yn debygol o fod yn addas ar gyfer hyfforddeion, oherwydd y galwadau y mae'r addysg hon yn ei rhoi ar athrawon. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ceisiadau unigol yn ôl eu teilyngdod, gan edrych yn arbennig ar unrhyw brofiad blaenorol neu brofiad sy'n cael ei gynnig mewn ysgolion prif ffrwd; a fydd yr hyfforddeion yn addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol; a fydd yr hyfforddeion yn gyfrifol am ddosbarthiadau cyfan ac a fydd y dosbarthiadau o faint tebyg i ddosbarthiadau mewn ysgolion prif ffrwd. Mae ceisiadau yn fwy tebygol o lwyddo os yw 50% neu ragor o'r rhaglen hyfforddi yn cael ei darparu mewn lleoliad prif ffrwd.

b. **Ysgolion annibynnol**: os cymeradwyir y cais, dim ond os yw'r hyfforddai yn addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n addysgu pwnc nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol i safon arholiad cyhoeddus, y gellir darparu'r hyfforddiant o dan y Cynllun yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn ysgol annibynnol.

c. **Unedau Cyfeirio Disgyblion**: ni all hyfforddiant mewn Uned Cyfeirio Disgyblion fod yn rhan o raglen gymeradwy.

d. **Sefydliadau Addysg Bellach**: nid oes darpariaeth gyfreithiol i ganiatáu i hyfforddai RhAG ymgymryd â rhan o'i hyfforddiant mewn sefydliad addysg bellach.

Rhaglenni hyfforddi

37. Cyn y gellir rhoi caniatâd i hyfforddai, rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru fedru cytuno ar raglen hyfforddi briodol ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Mae hyfforddeion ar y RhAG yn ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad sylweddol i addysgu, gyda hyfforddiant a chymorth wedi ei gynllunio tuag at gyrraedd safonau'r SAC. Wrth gynllunio amserlen yr hyfforddai bydd angen gweithio'n agos gyda phob un sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant. Gall effeithio ar waith sawl athro arall, yn enwedig y rhai fydd â rhan uniongyrchol i'w chwarae mewn mentora, arsylwi ac asesu'r hyfforddai. Mae'n hanfodol bod amserlen yr ysgol gyfan yn cynnwys yr hyfforddai.

38. Dylai cyrff argymell drafod yr hyfforddiant arfaethedig gyda'r hyfforddai ac eraill sy'n ymwneud â darparu'r hyfforddiant. Ar gyfer pob grŵp o safonau SAC, bydd angen i raglen hyfforddi fanwl gynnwys:-

- pa safonau y mae'r hyfforddai wedi'u bodloni eisoes, a pha dystiolaeth sydd i ategu hynny;
- pa safonau sydd heb eu bodloni hyd yn hyn;
- y cymorth, yr hyfforddiant a'r datblygiad y bydd y corff argymell yn eu trefnu i sicrhau bod yr hyfforddai yn bodloni'r safonau - a thros ba gyfnod o amser;
- pwy fydd yn rhoi'r hyfforddiant - a pha adnoddau gaiff eu defnyddio;
- pa gofnodion fydd yn cael eu cadw ar gyfer yr asesydd allanol;
- pwy fydd yn monitro'r rhaglen a pha weithdrefnau gaiff eu defnyddio; a
- pwy fydd yn asesu'r hyfforddai yn erbyn safonau'r SAC, pryd a pha mor aml.

39. Mae angen i'r rhaglen hyfforddi yn ei gyfanrwydd alluogi'r hyfforddai i gwrdd â holl safonau'r SAC erbyn yr asesiad terfynol. Gallai'r gweithgareddau hyfforddi gynnwys:-

- arsylwi, adborth a thrafodaethau gyda chydweithwyr yn yr ysgol;
- cyfarfodydd rheolaidd gyda mentor;
- mynychu cyrsiau yn yr ysgol neu gyrsiau hyfforddiant mewn swydd (HMS) yr AALl, a chyrsiau allanol perthnasol;
- mynychu cwrs sy'n cael ei addysgu gan ddarparwr HCA (er enghraifft rhan o raglen fodiwlaidd i raddedigion);
- hunanastudiaeth drwy ddysgu o bell a defnyddio CD-ROM i gael gwybodaeth, er enghraifft am bynciau neu sut i ddefnyddio TGCh;
- prosiectau ymchwil a darllen dan gyfarwyddyd;
- ymweld ag ysgolion eraill i weld modelau o arfer da;
- cymorth gan ymgynghorwyr yr AALl ar bynciau penodol fel rheoli dosbarth; a
- chyfarfodydd gyda llywodraethwyr ysgolion.

40. Mae'n bwysig bod hyfforddeion, cyflogwyr a chyrff argymell yn deall ac yn cytuno ar gynnwys y rhaglenni hyfforddiant, a bod yr hyfforddeion yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod sut y maent yn dod yn eu blaenau ac i gael gwybod mewn da bryd os ydynt yn anfoddhaol. Yn fwyaf arbennig, rhaid i gyrff argymell wneud yn siŵr:-

- bod yr hyfforddai yn cael copi o'r rhaglen hyfforddi a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- bod yr hyfforddiant y cytunwyd arno, ac a gymeradwywyd, yn cael ei ddarparu. (Os, am ba reswm bynnag, nad yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel y cytunwyd yn y caniatâd, rhaid hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgrifenedig ar unwaith);
- bod dewisiadau amgenach yn cael eu darparu os na ellir cadw at y rhaglen wreiddiol am ryw reswm;
- bod yr hyfforddai yn cael adborth rheolaidd am sut mae'n dod yn ei flaen a chyngor ar sut i wella; a
- bod rhaid i'r hyfforddai sylweddoli y gallai fod angen dod â'r rhaglen i ben oni fydd yr hyfforddai yn dod yn ei flaen yn foddhaol. Mae gan ysgol gyfrifoldeb i ddisgyblion a rhieni i ddarparu safonau boddhaol o addysgu.

41. Ni ddylai hyfforddeion RhAG weithio fel athrawon llawn-amser o'r dechrau'n deg oni bai bod ganddynt eisoes lawer iawn o brofiad. Os nad oes gan yr hyfforddai lawer o brofiad yn y dosbarth, dylai'r ysgol drefnu'r hyfforddiant fel bod yr ymrwymiad amser yn yr ystafell ddosbarth yn cynyddu'n raddol nes cyrraedd uchafswm o 80% o amser dysgu erbyn y trydydd tymor.

Statws dros dro fel athro graddedig neu athro cofrestredig

42. Ni all hyfforddeion gael caniatâd i hyfforddi ar gyfer y RhAG nes bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo'r rhaglen hyfforddi. Fodd bynnag, er mwyn darparu cyflogaeth hyblyg, pan fo corff argymell wedi anfon argymhelliad am ganiatâd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, gellir ystyried – fel y gwêl yr ysgol yn dda – bod yr hyfforddai sy'n cael ei enwi yn yr argymhelliad hwnnw yn derbyn hyfforddiant fel rhan o'r Cynllun (a hynny dros dro fel athro graddedig) ac felly yn gweithio mewn ysgolion. Gall yr hyfforddai barhau i ddysgu o dan y ddarpariaeth hon am 14 diwrnod ar ôl i'r Cynulliad roi gwybod i'r corff argymell a yw'n rhoi ei ganiatâd ai peidio.

43. Dylai ysgolion nodi ei bod yn bosibl cyflogi'r hyfforddai fel hyfforddwr, yn hytrach nag fel athro graddedig dros dro fel yr amlinellwyd ym mharagraff 42 uchod. Rhaid bodloni'r amodau sy'n cael eu nodi ym mharagraff 3, Atodlen 2 o Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004.

44. Y cyflogwr sydd i benderfynu a ddylid penodi ymgeisydd i'r swydd cyn neu ar ôl i'r caniatâd gael ei roi. Dylai'r cyflogwyr nodi nad yw'n ofynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i hyfforddi am y rheswm syml bod yr hyfforddai eisoes mewn ysgol.

45. Mae'n bwysig bod hyfforddeion, cyflogwyr a chyrff argymell yn deall cynnwys amodau a thelerau cyflogaeth yr hyfforddai gyda'r ysgol ac wedi cytuno arnynt.

Hyfforddiant

46. Mae'n rhaid i'r corff argymell sicrhau bod yr hyfforddiant y cytunwyd arno yn y caniatâd yn cael ei ddarparu ar gyfer yr hyfforddai yn ystod cyfnod caniatáu'r hyfforddiant. Os nad yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel y cytunwyd yn y caniatâd (am ba reswm bynnag), rhaid hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgrifenedig yn syth.

47. Mae'n hanfodol rhoi rhybudd prydlon, gan y gallai oedi amharu'n sylweddol neu roi terfyn ar raglen hyfforddi a gymeradwywyd, neu effeithio ar asesiad a drefnwyd. Mae amgylchiadau lle mae'n bosibl na ddarperir yr hyfforddiant yn unol â'r caniatâd a roddwyd, yn cynnwys cyfnodau pan fo'r hyfforddai yn absennol am gyfnod hir o achos salwch, neu o achos absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth.

48. Yn ôl yr amgylchiadau, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru gytuno i derfynu, ymestyn neu adfer rhaglen hyfforddi yn ddiweddarach.

Dod â'r caniatâd i ddilyn rhaglen hyfforddi i ben

49. Fel rheol, bydd y caniatâd i gael hyfforddiant yn parhau mewn grym am y cyfnod a nodir yn y caniatâd. Fodd bynnag, pe bai'n dod i'r amlwg fod hyfforddai wedi tynnu'n ôl o'r RhAG o achos salwch, beichiogrwydd neu am resymau eraill, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ymgynghori â'r Corff Argymell, ddod â'r caniatâd i hyfforddi i ben.

50. Bydd caniatâd i hyfforddi yn dod i ben ohono'i hun os yw cyflogaeth yr hyfforddai yn yr ysgol a nodwyd yn yr argymhelliad yn dod i ben (neu, pe bai'r argymhelliad yn nodi mwy nag un ysgol, os yw cyflogaeth yr hyfforddai yn unrhyw un o'r ysgolion a nodwyd yn dod i ben). Bydd hefyd yn dod i ben ohono'i hun os yw cyflogaeth yr hyfforddai yn y sefydliad neu'r corff a nodwyd yn yr argymhelliad yn dod i ben. Pan fo'r caniatâd yn dod i ben yn unrhyw un o'r amgylchiadau uchod, mae'n rhaid i'r corff argymell gyflwyno ffeithiau'r achos gerbron Llywodraeth Cynulliad Cymru.

51. Ni fydd y caniatâd yn dod i ben os mai'r rheswm bod y gyflogaeth yn dod i ben yw bod categori'r ysgol neu'r ysgolion wedi newid yn fath arall o ysgol neu ysgolion, neu os oedd y cyflogwr a enwir yn yr argymhelliad yn awdurdod addysg lleol a bod yr hyfforddai, wedi iddo beidio â chael ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw, yn cael ei gyflogi ar unwaith gan awdurdod addysg lleol arall.

Ymestyn neu adfer caniatâd blaenorol i hyfforddi

52. Gall achosion godi, o achos salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr hyfforddai, lle nad yw'r rhaglen hyfforddi (neu lle credir nad yw'n debygol o fod) yn cael ei gweithredu fel y cytunwyd yn y caniatâd. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosib y bydd yr hyfforddai yn dymuno parhau â'i hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion (er enghraifft, dychwelyd ar ôl cyfnod o salwch).

53. Os yw'r corff argymell a'r ysgol yn fodlon, ond bod y corff argymell o'r farn nad oes digon o amser yn weddill yn y rhaglen hyfforddi a ganiatawyd eisoes i alluogi'r hyfforddai i fodloni safonau'r SAC, gall wedyn ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymestyn y caniatâd blaenorol. Y cyfnod byrraf y gellir ei roi fel estyniad yw 3 mis.

54. Un canlyniad posibl i derfynu hyfforddiant y RhAG o dan y darpariaethau a nodir ym mharagraff 49, yw peidio â gwneud dim pellach â'r achos penodol hwnnw. Fodd bynnag, gallai achos godi lle dymuna'r cyfryw hyfforddai adfer ei hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion yn ddiweddarach. Os yw'r corff argymell a'r ysgol yn fodlon, gall y corff argymell ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i hyfforddi sy'n adfer y caniatâd blaenorol. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru nodi, fel rhan o'r adferiad, y dylai'r cyfnod hyfforddi fod yn wahanol i'r un blaenorol.

55. Wrth wneud cais o dan baragraff 52 neu 53, rhaid i'r corff argymell nodi mai'r un yw'r manylion yn y rhaglen ag sy'n cael eu cynnwys yn yr argymhelliad blaenorol am ganiatâd i hyfforddi. Rhaid i'r corff argymell nodi hefyd y byddai'r cyfnod hyfforddi estynedig neu adferedig arfaethedig yn ddigon hir i alluogi'r hyfforddai i gwblhau ei hyfforddiant. Yn achos cyfnod hyfforddi adferedig, rhaid i'r corff argymell gyflwyno cais am gyfnod hyfforddi sy'n wahanol i'r un blaenorol, pe bai'n hynny'n galluogi i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant yn foddhaol.

56. Gallai achosion godi lle mae'r broses o ailgychwyn rhaglen yr hyfforddai yn dibynnu ar yr ysgol neu'r corff argymell yn derbyn grant cyflog neu grant hyfforddi pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried ceisiadau am fwy o arian, a gellir anfon y ceisiadau hyn ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Noder os gwelwch yn dda fod maint y grant yn seiliedig ar hyfforddai yn hyfforddi am flwyddyn gyfan, ac yn gweithio'n llawn-amser yn yr ysgol; bydd rhaglenni byrrach yn cael eu talu pro rata.

Asesu hyfforddeion

57. Cyn y gellir gwneud argymhelliad am SAC, rhaid i gymhwysedd yr hyfforddai gael ei asesu'n annibynnol yn erbyn safonau SAC.

58. Os yw'r corff argymell wedi'i achredu yn ddarparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, y darparwr hwnnw yw'r asesydd cymeradwy, a rhaid iddo ddefnyddio ei drefniadau asesu arferol, gan gynnwys cymedroli allanol.

59. Os nad yw'r corff argymell wedi'i achredu'n ddarparwr HCA, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn enwebu asesydd allanol ar gyfer yr hyfforddai tua diwedd y cyfnod hyfforddi. Rhaid i'r asesydd allanol fod yn rhywun sydd heb gysylltiad â'r corff argymell nac yn ymwneud â chynllunio neu ddarparu'r hyfforddiant.

60. Os yw'r corff argymell o'r farn bod rhesymau da dros ohirio asesiad allanol - salwch er enghraifft - dylai roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn gynted ag y bo modd.

61. Yn yr un modd, os yw'r corff argymell o'r farn fod yr hyfforddai yn barod i'w asesu dros chwe mis cyn y daw'r caniatâd i hyfforddi i ben, dylai'r corff roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar unwaith. Os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

trefnu'r asesiad, dylai'r corff argymell anfon cais ysgrifenedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru am asesiad cynnar, gan roi rhesymau clir dros wneud hynny. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru (wedi ymgynghori, fel y bo'n briodol, â'i gynghorwyr arbenigol) yn anfon nodyn ysgrifenedig i'r corff argymell naill ai i ganiatáu asesiad cynnar neu beidio. O dan yr amgylchiadau hyn, ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru fel arfer yn adfer unrhyw gyflog a/neu gostau hyfforddi. Lle bo'n briodol, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn aildrefnu'r dyddiad asesu a drefnwyd yn wreiddiol.

Athrawon a Hyfforddwyd Dramor – asesu SAC ac Ymsefydlu ar y cyd

62. O dan rai amgylchiadau, gall athrawon a hyfforddwyd dramor sydd â safonau uchel cydnabyddedig o safbwynt addysgu a hyfforddi, gael eu hasesu yn erbyn Safonau SAC a Safon Diwedd y Cyfnod Ymsefydlu ar yr un pryd.

63. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer derbyn y ddau asesiad ar yr un pryd, rhaid bod yr athro/athrawes wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen hyfforddi proffesiynol ar gyfer athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r DU sy'n cael ei chydnabod fel rhaglen o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno, ac wedi dysgu'n llawn amser am o leiaf ddwy flynedd (neu'r hyn sy'n gyfwerth â hyn) yn y DU[3] neu yn rhywle arall. Ni fydd pob athro sy'n dilyn llwybr o'r fath i addysgu drwy'r Cynllun yn gymwys i'w asesu yn erbyn Safonau SAC a Safon Diwedd y Cyfnod Ymsefydlu ar yr un pryd. Dim ond yn yr achosion hynny lle mae'r asesydd neu'r darparwr achrededig ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon sy'n gweithredu fel y corff argymell ar gyfer yr hyfforddai o'r farn ei fod yn briodol y bydd modd i athro gael ei asesu yn y fath fodd, er enghraifft, pan fo'r athro yn meddu ar gymwysterau da o wlad sy'n meddu ar safon uchel a chydnabyddedig o safbwynt addysgu a hyfforddi athrawon.

64. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal gan berson wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r darparwr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon achrededig sy'n gweithredu fel y corff argymell ar gyfer yr hyfforddai. Mae athrawon a hyfforddwyd dramor sy'n cyrraedd Safonau SAC a Safon Diwedd y Cyfnod Ymsefydlu yn yr amgylchiadau hyn yn cael eu heithrio rhag gorfod cwblhau cyfnod Ymsefydlu.

Swyddogaeth yr asesydd allanol

65. Swyddogaeth yr asesydd allanol yw cymedroli barn yr aseswyr mewnol. Rhaid i'r corff argymell ofalu bod y trywydd y mae'r hyfforddai yn ei gymryd tuag at gyrraedd y safonau gofynnol yn cael ei asesu'n rheolaidd, a rhaid iddo gadw cofnod parhaus o gyrhaeddiad yr hyfforddai, ynghyd â thystiolaeth ategol ar gyfer yr asesydd allanol.

[3] Mae pobl o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (gwledydd yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) a'r Swistir sydd wedi cymhwyso fel athrawon yn eu gwlad eu hunain ar sail yr hyn a nodir yn Atodlen 2 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, yn athrawon cymwysedig ac nid ydynt yn dilyn y RhAG er mwyn ennill SAC. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt gael cadarnhad o'u statws cymwysedig gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru – gweler Rheoliadau 5 a 6 o Reoliadau 2004.

66. Wrth ffurfio barn annibynnol o allu proffesiynol yr hyfforddai, bydd yr asesydd allanol yn ymgynghori â'r ysgol(ion) a'r rhai sy'n darparu'r hyfforddiant; yn edrych ar y cofnodion asesu a'r dystiolaeth ategol (er enghraifft, cynlluniau a gwaith ysgrifenedig a aseswyd gan y darparwyr hyfforddiant); yn siarad â'r hyfforddai; ac yn arsylwi'n uniongyrchol o leiaf ddwy wers a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd yn annibynnol i ddosbarthiadau llawn gan yr hyfforddai. Bydd yn rhaid i'r Asesydd arsylwi'r hyfforddai yn addysgu ar draws pob ystod oedran o fewn y ddau gyfnod allweddol olynol lle'r ymgeisir am SAC (hy: 11-16, 11-18, 14-19), a bydd yn rhaid i'r corff argymell sicrhau bod modd bodloni'r gofynion hyn pan fo'r dyddiad asesu'n cael ei bennu.

Camau i'w cymryd pan fo'r asesiad yn llwyddiannus

67. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddiant ac yn dilyn asesiad llwyddiannus, rhaid i'r corff argymell, os yw'n fodlon y dylai'r hyfforddai fod yn athro cymwysedig/athrawes gymwysedig (hy: ennill SAC), gyflwyno argymhelliad i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i'r diben hwnnw.

68. Rhaid i'r argymhelliad y dylai hyfforddai fod yn athro cymwysedig gynnwys datganiad bod y person –

a. un ai –

   i. wedi cwblhau gwasanaeth yn llwyddiannus fel athro graddedig ar gyfer cyfnod y caniatâd, ac wedi cwblhau'r hyfforddiant y cytunwyd arno yn y caniatâd yn llwyddiannus; neu

   ii. wedi cwblhau dim llai na thri mis o wasanaeth fel athro graddedig ac wedi dod yn ei flaen mor dda yn ystod cyfnod ei wasanaeth fel athro graddedig fel bod y corff argymell o'r farn nad oedd angen iddo, oherwydd hynny, gwblhau cyfnod y caniatâd cyn cael ei asesu yn unol â'r hyn y cyfeirir ato ym mharagraff (b);

b. wedi cael ei asesu gan asesydd cymeradwy, sy'n canfod ei fod yn bodloni safonau SAC; ac

c. yn meddu ar radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster o safon gyfatebol a ddyfarnwyd mewn sefydliad addysgol yn rhywle arall.

69. Mae'r hyfforddai, a fydd yn cael ei hysbysu (yn ysgrifenedig) gan y Cyngor ei fod yn athro cymwysedig, yn dod yn athro cymwysedig ar ddyddiad y cyfryw hysbysebiad.

Y sefyllfa os na chaiff SAC ei argymell

70. Os yw'r corff argymell yn penderfynu (p'un ai a yw hynny oherwydd asesiad aflwyddiannus ai peidio) na ddylid argymell SAC ar ddiwedd y cyfnod hyfforddiant a bennwyd yn y caniatâd, bydd caniatâd yr hyfforddai yn dod i ben, ac ni fydd modd iddo addysgu o dan y ddarpariaeth hon.

71. Yr opsiynau y gellir eu dewis wedi hynny yn yr amgylchiadau hyn yw:-

a. dim camau pellach;

b. hyfforddiant pellach;

c. asesiad pellach; ac

d. apêl gan yr hyfforddai.

72. Mae manylion pob opsiwn yn cael eu cynnwys yn llawn yn Atodiad C. Yn unol ag Atodiad C, bydd yn rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru (wedi i'r dewis gael ei ystyried gan y corff argymell mewn trafodaeth â'r ysgol a'r hyfforddai, fel y bo'n briodol) pa opsiwn sy'n cael ei ddewis.

Y Ddeddf Diogelu Data

73. Pan fydd cais yn cael ei dderbyn, bydd yr wybodaeth yn y cais hwnnw yn cael ei storio ar gronfa ddata a bydd modd i staff Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd i mewn i'r gronfa honno. Bydd copi o'r cais ac unrhyw ddogfennau a amgaewyd gydag ef yn cael eu hanfon at gynghorwr annibynnol i gael ei gyngor.

74. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anfon caniatâd i'r Corff Argymell i'r hyfforddai gael hyfforddiant o dan y Cynllun fel y nodir ym mharagraffau 33-36. Ar ddiwedd y rhaglen hyfforddi, bydd copi o'r ffurflen gais a'r dogfennau eraill yn cael eu hanfon at asesydd allanol (ac eithrio pan fo'r Corff Argymell yn ddarparwr HCA oherwydd mewn achos o'r fath byddant yn trefnu eu hasesiad allanol eu hunain) i asesu'r hyfforddai yn erbyn safonau SAC.

75. Bydd argymhellion a wneir gan y corff argymell yn achos y rhai sy'n bodloni safonau SAC (yn ôl yr asesiad) yn cael eu gwneud i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a fydd yn rhoi gwybod yn swyddogol i'r hyfforddeion eu bod yn athrawon cymwysedig ac yn rhoi Cyfeirnodau Athrawon iddynt. Yr adeg honno, bydd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhoi'r manylion perthnasol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

76. Yn ychwanegol i hyn, gall gwybodaeth am bob ymgeisydd gael ei rhoi i Estyn er mwyn medru arolygu safon llwybrau i ennill SAC trwy gyfrwng cynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio data dienw at ddibenion ystadegol.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

I S - D D E D D F W R I A E T H

2006 Rhif. 8

ADDYSG, CYMRU

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006

Wedi'i wneud: *24 Chwefror 2006*

Yn dod i rym: *1 Mawrth 2006*

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004, OS 2004/1729 ("Rheoliadau 2004") a ddaeth i rym ar 7 Gorffennaf 2004, yn darparu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sefydlu cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ("y Cynllun") sy'n galluogi personau sy'n gyflogedig neu a fu'n gyflogedig mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac eithrio uned cyfeirio athrawon) i fod yn athrawon cymwysedig.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau i ddarparu cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer hybu recriwtio neu gadw athrawon neu staff heb fod yn athrawon. Gwneir y pwerau i roi grantiau o dan y Cynllun wrth arfer y pwerau hynny.

Mae'r Cynllun, a ddaeth yn effeithiol ar 1 Mawrth 2006, yn nodi gofynion y Rhaglen Athrawon Graddedig a'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig, a sut y gweithredir y rhaglenni hyn yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys cwmpas y Rhaglenni hyn ac yn rhoi manylion ynghylch y gofynion cymhwyster ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dymuno dilyn llwybr ar sail cyflogaeth i'r proffesiwn addysgu.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

S U B O R D I N A T E
L E G I S L A T I O N

2006 No. 8

EDUCATION, WALES

The National Assembly for Wales Employment Based Teacher Training Scheme 2006

Made *24 February 2006*

Coming into force *1 March 2006*

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Regulation 8 of the Education (School Teachers' Qualifications) (Wales) Regulations 2004, SI 2004/1729 ("the 2004 Regulations") which came into force on 7 July 2004, makes provision for the National Assembly for Wales to establish an employment-based teacher training scheme ("the Scheme") which enables persons who are, or have been, employed in a school or other educational institution (except a PRU) to become qualified teachers.

The National Assembly for Wales has powers to provide financial assistance under sections 14-17 of the Education Act 2002 for the promotion of the recruitment or retention of teachers or non-teaching staff. The grant making powers under the Scheme are made in the exercise of those powers.

The Scheme, which took effect from 1 March 2006, sets out the requirements of the Graduate Teacher Programme and the Registered Teacher Programme, and the operation of these programmes in Wales. It includes the scope of these Programmes and details the eligibility requirements for those individuals wishing to follow an employment-based route into teaching.

Mae'r Cynllun yn disodli'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth dyddiedig 23 Awst 2004 a gyhoeddwyd gan yr AHA yn Nogfen Gyfarwyddwyd Rhif 001/05, “Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth, Cymwysterau a Gwaith, Cynulliad Cenedlaethol Cymru”.

Dyroddwyd canllawiau ar wahân gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2004 a rhaid i'r rhai sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan y cynllun hwn roi sylw i'r canllawiau hynny.

The Scheme supersedes the employment based teacher training scheme dated 23 August 2004 and published in DfTE Directions document no 001/05, “The National Assembly for Wales Employment Based Teachers’ Qualifications Work”.

Separate guidance has been issued by the National Assembly for Wales under regulation 8(5) of the 2004 Regulations and those exercising any function under this scheme must have regard to that guidance.

2006 Rhif. 8

ADDYSG, CYMRU

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2006

Wedi'i wneud: *24 Chwefror 2006*

Yn dod i rym: *1 Mawrth 2006*

Dehongli

Ac eithrio lle y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y cynllun hwn –

ystyr "Llywodraeth Cynulliad Cymru" yw adain weithredol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef aelodau Cabinet y Cynulliad a'r staff sy'n gweithio iddynt, y mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy ganddynt;

ystyr "addysgu" yw cyflawni gwaith o fath sydd wedi ei bennu gan reoliadau a wnaed o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002[a] ac mae "addysgu" i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "cyflogaeth" yw cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth neu gymryd person ymlaen i ddarparu gwasanaethau ac eithrio o dan gontract cyflogaeth ac mae cyfeiriadau at fod yn gyflogedig i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddiant ar sail cyflogaeth" ac "y Cynllun" yw'r cynllun y cyfeirir ato yn rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004;

ystyr "corff argymell" yw'r corff sy'n trefnu'r hyfforddiant sy'n cael ei roi neu sydd i'w roi i'r person a enwir mewn argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth;

a Ar hyn o bryd, Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1744.

2006 No. 8

EDUCATION, WALES

The National Assembly for Wales Employment Based Teacher Training Scheme 2006

Made *24 February 2006*

Coming into force *1 March 2006*

Interpretation

Except where the context otherwise requires, for the purpose of this scheme –

"Welsh Assembly Government" - means the executive arm of the National Assembly for Wales, which comprises members of the Assembly Cabinet and staff working to them, by whom functions of the National Assembly for Wales are exercisable;

"teaching" – means carrying out work of a kind which is specified by regulations made under section 133 of the Education Act 2002[a] and "to teach" is to be construed accordingly;

"employment" – means employment under a contract of employment or the engagement of a person to provide services otherwise than under a contract of employment and references to being employed are to be construed accordingly

"employment based teacher training scheme" and "the Scheme" – mean the scheme referred to in Regulation 8 of the Education (School Teachers' Qualifications) (Wales) Regulations 2004;

"recommending body" – means the body that is the organiser of the training given or to be given to the person named in a recommendation for an authorisation to undertake training as part of the employment-based teacher training scheme;

a Currently the Education (Specified Work and Registration) (Wales) Regulations 2004, SI 2004/1744.

ystyr “athro graddedig” yw person y rhoddwyd iddo, yn unol â pharagraff 7 o'r Cynllun, ganiatâd i ymgymryd â hyfforddiant, fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ar gyfer y Rhaglen Athrawon Graddedig;

ystyr “athro cofrestredig” yw person y rhoddwyd iddo, yn unol â pharagraff 11 o'r Cynllun, ganiatâd i ymgymryd â hyfforddiant fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ar gyfer y Rhaglen Athrawon Cofrestredig;

ystyr "ysgol" yw ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, ac eithrio uned cyfeirio disgyblion, neu ysgol arbennig nas cynhelir felly neu ysgol annibynnol.

CYNLLUN HYFFORDDI ATHRAWON AR SAIL CYFLOGAETH

Cwmpas y Cynllun

1. Mae'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn ymgorffori rhaglenni hyfforddi a nod y rhaglenni fydd galluogi personau sy'n gyflogedig neu a fu'n gyflogedig mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) i fod yn athrawon cymwysedig. Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer y rhaglenni canlynol:-

- y Rhaglen Athrawon Graddedig
- y Rhaglen Athrawon Cofrestredig.

Y Rhaglenni

2. Mae'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) yn llwybr ar sail cyflogaeth at Statws Athrawon Cofrestredig (SAC). O dan y rhaglen hon, caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i raddedigion nad ydynt wedi ennill SAC i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, fel y gallant addysgu tra byddant yn dilyn rhaglen hyfforddi gymeradwy a luniwyd i'w galluogi i fodloni’r safonau SAC.

3. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i athrawon, sydd wedi'u hyfforddi dramor ac sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen o hyfforddiant proffesiynol i athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig (rhaglen a gydnabyddir yn rhaglen hyfforddi o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno) ac nad ydynt wedi ennill SAC, i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG.

“graduate teacher” – means a person to whom an authorisation to undertake training as part of the employment-based teacher training scheme for the Graduate Teacher Programme has been granted in accordance with paragraph 7 of the Scheme;

“registered teacher” – means a person to whom an authorisation to undertake training as part of the employment-based teacher training scheme for the Registered Teacher Programme has been granted in accordance with paragraph 11 of the Scheme;

“school” – means a school maintained by a local education authority, other than a pupil referral unit, or a special school not so maintained or an independent school.

EMPLOYMENT BASED TEACHER TRAINING SCHEME

Scope of the Scheme

1. The employment-based teacher training scheme incorporates training programmes aimed at enabling persons who are, or have been, employed in a school or other educational institution (except a pupil referral unit) to become qualified teachers. The Scheme provides for the following programmes:-
    - the Graduate Teacher Programme
    - the Registered Teacher Programme.

The Programmes

2. The Graduate Teacher Programme (GTP) is an employment-based route to Qualified Teacher Status (QTS). Under the programme, graduates who do not have QTS may be authorised by the Welsh Assembly Government to undertake training for the purposes of the GTP as part of the employment-based teacher training scheme so that they can teach while following an approved training programme designed to enable them to meet the QTS standards.

3. Overseas trained teachers who have successfully completed a programme of professional training for teachers in any country outside the United Kingdom (and which is recognised as such a programme of training by the competent authority in that country) and who do not have QTS may also be authorised by the Welsh Assembly Government to undertake training for the purposes of the GTP.

4. Mae'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig (RhAC) yn darparu llwybr tebyg i'r rhai nad ydynt wedi graddio, ac sydd wedi cwblhau'n llwyddiannus yr hyn sy'n gyfwerth ag o leiaf ddwy flynedd o addysg uwch lawnamser, ac sy'n gallu cwblhau gradd tra byddant yn hyfforddi a gweithio fel athro. O dan y rhaglen, caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i hyfforddeion i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAC fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, fel y gallant addysgu, dilyn rhaglen hyfforddi gymeradwy ar gyfer ennill SAC, a chwblhau gradd mewn pwnc sy'n eu paratoi'n briodol ar gyfer addysgu. Bydd dyfarnu SAC iddynt yn ddibynnol ar iddynt gwblhau'r rhaglen gyfan, gan gynnwys y radd, yn llwyddiannus.

5. Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y RhAC fod wedi eu derbyn ar raglen astudiaethau a fydd yn arwain at radd gyntaf (neu gymhwyster cyfwerth) mewn Prifysgol yn y DU, cyn y gellir rhoi caniatâd iddynt ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAC.

6. O dan y RhAG neu'r RhAC, nid yw hyfforddeion y rhoddwyd iddynt ganiatâd i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhAC fel rhan o'r cynllun hyfforddiant ar sail cyflogaeth yn athrawon cymwysedig, ond gallant addysgu mewn ysgol (ac eithrio mewn uned cyfeirio disgyblion).[a]

Y Corff Argymell

7. Rhaid i geisiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â pherson sy'n dymuno ymgymryd â'r RhAG neu'r RhAC gael eu gwneud gan gorff argymell. Caiff darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy'n ddarparwyr wedi'u hachredu gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; ysgolion a gymeradwywyd fel cyrff argymell gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; awdurdodau addysg lleol a gymeradwywyd felly; a chyrff eraill sy'n gallu bodloni gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer derbyn cymeradwyaeth fod yn gyrff argymell.

Caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant ar y Rhaglen Athrawon Graddedig

8. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i hyfforddai i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG fel rhan o'r Cynllun ar argymhelliad y corff argymell. Rhaid i'r argymhelliad gan y corff argymell i roi caniatâd i hyfforddai RhAG i ymgymryd â hyfforddiant gynnwys y manylion a nodir ym mharagraffau

a Paragraff 7 o Atodlen 2 i Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004, O.S. 2004/1744.

4. The Registered Teacher Programme (RTP) provides a similar route for non-graduates who have successfully completed the equivalent of at least two years' full-time higher education and can complete a degree while they train and work as a teacher. Under the programme trainees may be authorised by the Welsh Assembly Government to undertake training for the purposes of the RTP as part of the employment-based teacher training scheme so that they can teach, follow an approved training programme for QTS and complete a degree in a subject that provides a suitable preparation for teaching. The award of QTS will depend on successful completion of the whole programme including the degree.

5. Candidates for the RTP must have been accepted on to a programme of studies leading to a first degree (or equivalent qualification) of a UK University before an authorisation to undertake training for the purposes of the RTP can be granted.

6. Under both the GTP or RTP, trainees who have been granted authorisation to undertake training for the purposes of the GTP or RTP as part of the employment based teacher training scheme are not qualified teachers, but can teach at a school (except a pupil referral unit).[a]

The Recommending Body

7. Applications to the Welsh Assembly Government in relation to a person who wishes to undertake the GTP or RTP must be made by a recommending body. Recommending bodies may be initial teacher training providers accredited by the Higher Education Funding Council for Wales; schools approved as recommending bodies by the Welsh Assembly Government; local education authorities so approved; and other bodies able to meet the Welsh Assembly Government's requirements for approval.

Authorisation to undertake training on the Graduate Teacher Programme

8. The Welsh Assembly Government may grant an authorisation to undertake training for the purposes of the GTP as part of the Scheme to a trainee on the recommendation of the recommending body. The recommendation for an authorisation to undertake training prepared by the recommending body for a GTP trainee must contain the particulars set out in

a Paragraph 7 of Schedule 2 to the Education (Specified Work and Registration) (Wales) Regulations 2004, SI 2004/1744.

9-11, ac unrhyw fanylion eraill a fynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

9. Rhaid iddo gynnwys datganiad gan y corff argymell bod yr hyfforddai a enwir yn yr argymhelliad -

(a) yn ei farn ef yn berson addas i fod yn athro mewn ysgol;

(b) yn dal gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad addysgol yng Nghymru neu yn Lloegr, neu gymhwyster o safon gyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad addysgol yn rhywle arall;

(c) wedi cyrraedd y safon ofynnol mewn Saesneg a mathemateg i ennill Gradd C TGAU (neu gymhwyster cyfwerth);

(ch) os ar 1 Rhagfyr 1979 neu ar ôl hynny y ganed yr hyfforddai, ac os disgyblion o dan 11 mlwydd oed y bwriedir i'r hyfforddai eu haddysgu yn ystod cyfnod y caniatâd, ei fod wedi cyrraedd y safon i ennill Gradd C TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth sengl neu bwnc gwyddonaiaeth cyfun; ac

(d) os yw'n berthnasol, ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus, mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, raglen o hyfforddiant proffesiynol a gydnabyddir yn rhaglen hyfforddiant o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno.

10. Rhaid i'r argymhelliad gynnwys manylion yr hyfforddiant y cynigir ei roi i'r hyfforddai, a hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn briodol i ddiwallu angen yr hyfforddai am brofiad a hyfforddiant ymarferol mewn addysgu ac, yn achos argymhelliad cyntaf, pan fo'r hyfforddai'n gyflogedig yn llawnamser, rhaid i'r cyfnod beidio â bod yn llai na thri mis nac yn fwy na blwyddyn.

11. Rhaid i argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant gynnwys hefyd enw'r sefydliad neu'r corff a fydd yn cyflogi'r hyfforddai a rhaid iddo gynnwys manylion ynghylch yr ysgol neu'r ysgolion lle y mae'r hyfforddai i ymgymryd â'i hyfforddiant.

Caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant ar y Rhaglen Athrawon Cofrestredig

12. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru roi caniatâd i hyfforddai i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAC fel rhan o'r Cynllun a hynny ar argymhelliad y corff argymell. Rhaid i argymhelliad y corff argymell i roi caniatâd i hyfforddai RhAC i ymgymryd â hyfforddiant gynnwys y manylion a nodir ym mharagraffau 13-15, ac unrhyw fanylion eraill y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu mynnu.

the paragraphs 9-11, and any further particulars as the Welsh Assembly Government requires.

9. It must contain a statement by the recommending body that the trainee named in the recommendation -

(a) is in its opinion a suitable person to be a teacher at a school;

(b) holds a first degree or equivalent qualification granted by an educational institution in England or Wales, or a qualification of an equivalent standard granted by an educational institution elsewhere;

(c) has attained in English and mathematics the standard required to obtain GCSE (or equivalent) Grade C;

(d) where the trainee was born on or after 1st December 1979, and during their period of authorisation it is intended that the trainee will teach pupils aged below 11 years, has attained in a single science subject or in a combined science subject the standard required to obtain GCSE Grade C; and

(e) if applicable, has successfully completed a programme of professional training for teachers in any country outside the United Kingdom and which is recognised as such a programme of training by the competent authority in that country.

10. The recommendation must contain the particulars of the training that is proposed to be given to the trainee and of the length of the proposed period of training. The length of the proposed period of training must be appropriate to the trainee's need for practical teaching experience and training and, in the case of a first recommendation where the trainee will be employed full-time, it must be not less than three months and not more than one year.

11. The recommendation for an authorisation to undertake training must also contain the name of the institution or body who will be the trainee's employer, and must contain particulars of the school or schools at which the trainee is to carry out his or her training.

Authorisation to undertake training on the Registered Teacher Programme

12. The Welsh Assembly Government may grant an authorisation to undertake training for the purposes of the RTP as part of the Scheme to a trainee on the recommendation of the recommending body. A recommendation for an authorisation to undertake training prepared by the recommending body for a trainee under the RTP must contain the particulars set out in the paragraphs 13-15, and any further particulars as the Welsh Assembly Government requires.

13. Rhaid iddo gynnwys datganiad gan y corff argymell fod yr hyfforddai a enwir yn yr argymhelliad -

(a) yn ei farn ef yn berson addas i fod yn athro mewn ysgol;

(b) wedi cwblhau'n llwyddiannus raglen o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer athrawon mewn unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, a honno'n rhaglen a gydnabyddir yn rhaglen hyfforddiant o'r fath gan yr awdurdod cymwys yn y wlad honno, neu ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus –

(i) dim llai na dwy flynedd o addysg uwch lawnamser yng Nghymru neu yn Lloegr, neu

(ii) addysg gyfatebol sydd naill ai'n addysg lawnamser neu'n addysg ran-amser yng Nghymru, yn Lloegr, neu yn rhywle arall;

(c) wedi cyrraedd y safon ofynnol mewn Saesneg a mathemateg i ennill Gradd C TGAU (neu gymhwyster cyfwerth);

(ch) os ar 1 Rhagfyr 1979 neu ar ôl hynny y ganed yr hyfforddai, ac os disgyblion o dan 11 mlwydd oed y bwriedir i'r hyfforddai eu haddysgu yn ystod cyfnod y caniatâd, ei fod wedi cyrraedd y safon i gael Gradd C TGAU wedi'i dyfarnu iddo mewn pwnc gwyddoniaeth sengl neu bwnc gwyddonaiaeth gyfun 1979; ac

(d) wedi ei dderbyn ar raglen astudiaethau a fydd yn arwain at ddyfarnu gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth.

14. Rhaid i'r argymhelliad gynnwys manylion yr hyfforddiant y cynigir ei roi i'r hyfforddai, a hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn briodol i ddiwallu angen yr hyfforddai i gael profiad a hyfforddiant ymarferol mewn addysgu ac, yn achos argymhelliad cyntaf, pan fo'r hyfforddai'n gyflogedig yn llawnamser, rhaid i'r cyfnod beidio â bod yn llai na blwyddyn nac yn fwy na dwy flynedd.

15. Rhaid i argymhelliad ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant hefyd gynnwys enw'r sefydliad neu'r corff a fydd yn cyflogi'r hyfforddai, a rhaid iddo gynnwys manylion yr ysgol neu'r ysgolion lle y mae'r hyfforddai i gael ei gyflogi.

Statws dros dro fel athro graddedig neu athro cofrestredig

16. Pan fo'r corff argymell wedi cyflwyno argymhelliad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, caniateir i'r hyfforddai sydd wedi'i enwi yn yr argymhelliad hwnnw, yn ôl disgresiwn yr ysgol

13. It must contain a statement by the recommending body that the trainee named in the recommendation -

(a) is in its opinion a suitable person to be a teacher at a school;

(b) has successfully completed a programme of professional training for teachers in any country outside the United Kingdom and which is recognised as such a programme of training by the competent authority in that country, or has successfully completed –

(i) not less than two years' full-time higher education in England or Wales, or

(ii) comparable education either full-time or part-time whether in England or Wales or elsewhere;

(c) has attained in English and mathematics the standard required to obtain GCSE (or equivalent) Grade C;

(d) where the trainee was born on or after 1st December 1979 and during their period of authorisation it is intended that the trainee will teach pupils aged below 11 years, has attained in a single science subject or in a combined science subject the standard required to obtain GCSE Grade C; and

(e) has been accepted onto a programme of study leading to the award of a first degree or equivalent qualification.

14. The recommendation must contain the particulars of the training that is proposed to be given to the trainee and of the length of the proposed period of training. The length of the proposed period of training must be appropriate to the trainee's need for practical teaching experience and training and, in the case of a first recommendation where the trainee will be employed full-time, it must be not less than one year and not more than two years.

15. The recommendation for an authorisation to undertake training must also contain the name of the institution or body who will be the trainee's employer and must contain particulars of the school or schools at which the trainee is to be employed.

Provisional graduate teacher or registered teacher status

16. Where the recommending body has submitted a recommendation to the Welsh Assembly Government, the trainee named in that recommendation may at the discretion of the school

neu'r ysgolion a bennir yn yr argymhelliad, gael ei ystyried yn athro graddedig neu'n athro cofrestredig, yn ôl y digwydd, at ddibenion rheoliadau o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002 a dibenion y Cynllun hwn hyd ddiwedd cyfnod o 14 o ddiwrnodau ar ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru hysbysu'r corff argymell o'i benderfyniad i roi caniatâd neu beidio.

Hyfforddiant

17. Rhaid i'r corff argymell sicrhau bod yr hyfforddiant y cytunwyd arno yn y caniatâd yn cael ei ddarparu ar gyfer hyfforddai yn ystod cyfnod caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant. Os nad yw'r hyfforddiant, am ba reswm bynnag, yn mynd rhagddo fel y cytunwyd yn y caniatâd, rhaid ysgrifennu ar unwaith i hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Terfynu caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant

18. Bydd caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant yn parhau mewn grym am y cyfnod o hyfforddiant a bennir yn y caniatâd hwnnw ond caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru, pan y'i hysbysir bod hyfforddai wedi tynnu'n ôl o'r RhAG neu o'r RhAC, p'un ai o achos salwch, beichiogrwydd neu fel arall, derfynu'r caniatâd ar ôl ymgynghori â'r Corff Argymell,.

19. Bydd caniatâd i hyfforddeion a gyflogir naill ai o dan y RhAG neu'r RhAC i ymgymryd â hyfforddiant yn dod i ben mewn unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol:-

(a) os yw'r hyfforddai yn peidio â bod yn gyflogedig mwyach yn yr ysgol a bennir yn yr argymhelliad ar gyfer caniatâd neu, os bydd yr argymhelliad wedi pennu mwy nag un ysgol, pan fo'r hyfforddai'n peidio â bod yn gyflogedig yn unrhyw un o'r ysgolion a bennir. Os oherwydd bod categori'r ysgol neu'r ysgolion (yn ôl y digwydd) yn newid yn fath arall o ysgol neu ysgolion y digwydd un o'r amgylchiadau hyn, bydd y caniatâd yn parhau mewn grym;

(b) os yw'r hyfforddai yn peidio â bod yn gyflogedig mwyach gan y sefydliad neu'r corff a enwir yn yr argymhelliad ac eithrio –

(i) pan fydd hynny'n digwydd oherwydd bod categori ysgol neu ysgolion (yn ôl y digwydd) lle y cyflogir yr hyfforddai yn newid yn fath arall o ysgol neu o ysgolion, neu

(ii) pan mai awdurdod addysg lleol oedd y cyflogwr a enwir yn yr argymhelliad, a bod yr hyfforddai, yn syth ar ôl peidio â bod yn gyflogedig gan yr awdurdod hwnnw'n cael ei gyflogi gan awdurdod addysg lleol arall.

or schools specified in the recommendation be considered as a graduate teacher or as a registered teacher, as the case may be, for the purposes of regulations under section 133 of the Education Act 2002 and this Scheme until 14 days after the Welsh Assembly Government has notified the recommending body of its decision whether or not to grant an authorisation.

Training

17. The recommending body must ensure that during the period of an authorisation to undertake training a trainee is provided with the training agreed in the authorisation. If, for whatever reason, the training is not being carried out as agreed in the authorisation, the Welsh Assembly Government must be informed in writing immediately.

Cessation of authorisation to undertake training

18. An authorisation to undertake training will remain in force for the period of training specified in that authorisation but on notification that a trainee has withdrawn from either the GTP or RTP, whether due to illness, pregnancy or otherwise, the Welsh Assembly Government may, after consultation with the Recommending Body, terminate the authorisation.

19. An authorisation to undertake training will lapse in any of the following circumstances for trainees employed under either the GTP or the RTP:-

(a) if the trainee ceases to be employed at the school specified in the recommendation for an authorisation or, where the recommendation specified more than one school, they cease to be employed at any of the schools specified. If this event is because of a change of category of the school or schools (as the case may be) to another type of school or schools, the authorisation will remain in force;

(b) if the trainee ceases to be employed by the institution or body named in the recommendation except –

(i) where that arises because of the change of category of a school or schools (as the case may be) at which they are employed to another type of school or schools, or

(ii) where the employer named in the recommendation was a local education authority and immediately on ceasing to be employed by that authority the trainee is employed by another local education authority.

20. Pan fo caniatâd yn dod i ben o ganlyniad i unrhyw un o'r sefyllfaoedd a nodir uchod, mae'n ofynnol i'r corff argymell hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o ffeithiau'r achos.

Estyn neu adfer caniatâd blaenorol i ymgymryd â hyfforddiant

21. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar gais corff argymell, ddyroddi estyniad i ganiatâd a roddwyd eisoes i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhAC:-

(a) os na chyflawnwyd yr hyfforddiant, neu os nad yw'n debygol y'i cyflawnir, fel y cytunwyd yn y caniatâd am resymau salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr hyfforddai; a

(b) os yw'r hyfforddai o dan sylw yn dymuno parhau â'i hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion, ond bod y corff argymell o'r farn nad oes digon o amser y rhaglen hyfforddi yn weddill i'w alluogi i fodloni'r safonau SAC.

22. Y cyfnod lleiaf o estyniad y gellir ei roi yw cyfnod o 3 mis.

23. Os terfynir hyfforddiant RhAG neu RhAC o dan y darpariaethau ym mharagraff 18, ac os dymuna'r hyfforddai yn nes ymlaen ailgydio yn ei hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion, caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru, os daw cais i law gan y Corff Argymell, ddyroddi caniatâd i hyfforddi sy'n adfer y caniatâd a roddwyd yn flaenorol. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru bennu fel rhan o'r broses o adfer yr hyfforddiant y dylai'r cyfnod hyfforddi fod yn wahanol i'r un blaenorol.

24. Wrth wneud cais o dan baragraff 21 neu 23, rhaid i'r corff argymell bennu nad yw'r manylion a geir yn yr argymhelliad blaenorol ar gyfer caniatâd i ymgymryd â hyfforddiant wedi newid. Rhaid i'r corff argymell bennu hefyd y byddai'r cyfnod estynedig arfaethedig neu'r cyfnod hyfforddi arfaethedig a gafodd ei adfer yn ddigon hir i ganiatáu i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant. Yn achos cyfnod hyfforddi a gafodd ei adfer, rhaid i'r corff argymell wneud cais am gyfnod hyfforddi sy'n wahanol i'r un blaenorol os yw hynny'n angenrheidiol i ganiatáu i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant yn dderbyniol.

Asesu hyfforddeion ar y RhAG a'r RhAC

25. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi, rhaid i'r corff argymell, os yw wedi ei fodloni bod yr hyfforddai'n ddigon cymwys i fodloni'r safonau SAC, ofyn am asesiad annibynnol yn erbyn y safonau SAC gan asesydd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

20. Where an authorisation lapses as a result of any of the above stated circumstances, the recommending body is required to report the facts of the case to the Welsh Assembly Government.

Extension or reinstatement of previous authorisation to undertake training

21. The Welsh Assembly Government may on application from a recommending body issue an extension to an authorisation to undertake training for the purposes of the GTP or RTP previously granted if:-

(a) the training has not been, or is not likely to be, fully carried out as agreed in the authorisation for reasons of illness, pregnancy or other circumstances beyond the control of the trainee; and

(b) the trainee concerned wishes to continue their training at the same school or schools, but the recommending body is of the opinion that there is insufficient time remaining for the training programme to enable them to meet the QTS standards.

22. The minimum extension period which can be granted is one of 3 months.

23. If GTP or RTP training is terminated under the provisions in paragraph 18, and the trainee concerned subsequently wishes to resume their training at the same school or schools, the Welsh Assembly Government may on application from the Recommending Body issue an authorisation to train which reinstates the one previously granted. The Welsh Assembly Government may specify as part of the reinstatement that the training period should be different from the one previously granted.

24. In making an application under paragraphs 21 or 23, the recommending body must specify that the details contained in the previous recommendation for an authorisation to undertake training remain unchanged. The recommending body must also specify that the proposed extended or reinstated training period would be of sufficient length to allow the trainee to complete their training. In the case of a reinstated training period, the recommending body must apply for a training period that is different from the one previously granted if that is necessary to allow the trainee to complete their training satisfactorily.

Assessment of trainees on the GTP and RTP

25. At the end of the period of training the recommending body, if satisfied that the trainee is sufficiently competent to meet the QTS standards, must request an independent assessment against the QTS standards by an assessor approved by the Welsh Assembly Government.

26. Os yw'r corff argymell yn ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac yn ddarparwr sydd wedi'i achredu, y darparwr hwnnw yw'r asesydd cymeradwy, a rhaid iddo ddefnyddio ei drefniadau asesu arferol, gan gynnwys arholiadau allanol.

27. Os nad yw'r corff argymell yn ddarparwr hyfforddiant cychwynnol i athrawon sy'n ddarparwr wedi'i achredu, asesydd allanol a bennwyd ar gyfer yr hyfforddai gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tua diwedd y cyfnod hyfforddi yw'r asesydd cymeradwy.

Argymell cydnabod person yn athro cymwysedig

28. Os yw asesiad yn cadarnhau bod yr hyfforddai'n bodloni'r safonau SAC rhaid i'r corff argymell, os yw wedi'i fodloni y dylai'r hyfforddai fod yn athro cymwysedig, gyflwyno argymhelliad i'r perwyl hwnnw i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

29. Rhaid i argymhelliad y dylai hyfforddai fod yn athro cymwysedig gynnwys datganiad bod y person –

(a) naill ai -

(i) wedi cwblhau'n llwyddiannus wasanaeth fel athro graddedig neu athro cofrestredig (fel y digwydd) yn ystod cyfnod y caniatâd, ac wedi cwblhau'n llwyddiannus yr hyfforddiant y cytunwyd arno yn y caniatâd, neu

(ii) wedi cwblhau dim llai na thri mis o wasanaeth fel athro graddedig neu ddim llai nag un flwyddyn o wasanaeth fel athro cofrestredig (yn ôl y digwydd) ac wedi gwneud cymaint o gynnydd yn ystod cyfnod ei wasanaeth fel athro graddedig neu gofrestredig (yn ôl y digwydd) fel nad oedd angen iddo ym marn y corff ac yng ngoleuni'r cynnydd, gwblhau'r gwasanaeth hwnnw ar gyfer cyfnod y caniatâd cyn cael ei asesu yn unol â'r hyn y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (b);

(b) wedi ei asesu gan asesydd cymeradwy, sy'n canfod ei fod yn bodloni'r safonau SAC; ac

(c) yn dal gradd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster o safon gyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad addysgol yn rhywle arall.

26. If the recommending body is an accredited initial teacher training provider, the approved assessor is that provider and it must use its usual assessment arrangements including external moderation.

27. If the recommending body is not an accredited initial teacher training provider, the approved assessor will be an external assessor assigned to the trainee by the Welsh Assembly Government towards the end of the training period.

Recommendation for recognition as a qualified teacher

28. If an assessment confirms that the trainee meets the QTS standards the recommending body, if satisfied that the trainee should be a qualified teacher, must submit to the General Teaching Council for Wales a recommendation to that effect.

29. The recommendation that a trainee should be a qualified teacher must include a statement that the person –

(a) has either –

(i) successfully completed service as a graduate teacher or a registered teacher (as the case may be) for the period of the authorisation and has successfully completed the training agreed in the authorisation, or

(ii) completed not less than three months' service as a graduate teacher or not less than one year's service as a registered teacher (as the case may be) and has made such progress during his period of service as a graduate or registered teacher (as the case may be) that in the view of the recommending body he did not need, in the light of progress, to complete that service for the period of the authorisation before being assessed as referred to in paragraph (b);

(b) has been assessed by an approved assessor as meeting the QTS standards; and

(c) holds a first degree or equivalent qualification granted by a United Kingdom institution, or a qualification of an equivalent standard granted by an educational institution elsewhere.

Y Broses Apelau

30. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud darpariaeth ar gyfer proses apelau fel rhan o'r cynllun hwn.

Grantiau a ffyrdd eraill o gyllido

31. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod grantiau ar gael i ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir ac sy'n cyflogi personau a awdurdodwyd i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhAC i fodloni'n gyfan gwbl neu'n rhannol gostau cyflogau'r personau hynny. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru:-

(a) bennu swm unrhyw grant y mae'n sicrhau ei fod ar gael a hynny ar lefel briodol yn ei farn ef;

(b) gyfyngu ar nifer y grantiau i'w cynnig; ac

(c) sicrhau mai dim ond mewn achosion pan ymgymerir â hyfforddiant at ddibenion y RhAG a'r RhAC mewn perthynas â chyfnodau neu bynciau arbennig yn mae grantiau ar gael.

32. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod grantiau ar gael i gyrff argymell sy'n darparu hyfforddiant at ddibenion y RhAG a'r RhAC er mwyn cwrdd yn gyfan gwbl neu'n rhannol â chostau'r hyfforddiant hwnnw. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru:-

(a) bennu swm unrhyw grant y mae'n sicrhau ei fod ar gael a hynny ar lefel briodol yn ei farn ef;

(b) gyfyngu ar nifer y grantiau i'w cynnig; ac

(c) sicrhau mai dim ond mewn achosion pan ymgymerir â hyfforddiant at ddibenion y RhAG a'r RhAC mewn perthynas â chyfnodau neu bynciau arbennig yn mae grantiau ar gael.

33. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i ysgol neu gorff argymell ad-dalu rhan neu'r cyfan o unrhyw grant y sicrheir ei fod ar gael o dan y darpariaethau yn mharagraffau 31 a/neu 32 os bydd y cyfnod o hyfforddiant, am ba reswm bynnag, yn llai na'r cyfnod o hyfforddiant a bennwyd pan roddwyd y grant.

34. Bydd y swm sydd i fod yn ofynnol ei ad-dalu o ran unrhyw grant y sicrheir ei fod ar gael o dan y darpariaethau ym mharagraff 31 yn gymaint â hyd at gyfanswm y gyfran o'r grant a gynigiwyd sy'n gyfwerth â'r gyfran o'r cyfnod o hyfforddiant a

Appeals Process

30. The Welsh Assembly Government may make provision for an appeal process as part of this scheme.

Grants and other funding

31. The Welsh Assembly Government may make grants available to maintained schools or non-maintained special schools employing persons authorised to undertake training for the purposes of the GTP or the RTP to meet in whole or in part the costs of those persons' salaries. The Welsh Assembly Government may:-

(a) set the amount of any grant it makes available at a level it considers appropriate;

(b) limit the number of grants to be offered; and

(c) make grants available only in respect of cases where training is being undertaken for the purposes of the GTP or the RTP in respect of particular phases or subjects.

32. The Welsh Assembly Government may make grants available to recommending bodies providing training for the purposes of the GTP or the RTP to meet in whole or in part the costs of that training. The Welsh Assembly Government may:-

(a) set the amount of any grant it makes available at a level it considers appropriate;

(b) limit the number of grants to be offered; and

(c) make grants available only in respect of cases where training is being undertaken for the purposes of the GTP or the RTP in respect of particular phases or subjects.

33. The Welsh Assembly Government may require a school or recommending body to return part or all of any grant made available under the provisions in paragraphs 31 and/or 32 if the period of training is, for any reason, less than the period of training specified when the grant was made.

34. The amount to be required to be returned for any grant made available under the provisions in paragraph 31 will be up to a maximum of the proportion of the grant offered equal to the proportion of the period of training specified when

bennwyd pan roddwyd y grant, sef y gyfran pan na fu unrhyw hyfforddiant. Y swm sydd i fod yn ofynnol ei ad-dalu o ran unrhyw grant y sicrheir ei fod ar gael o dan y darpariaethau ym mharagraff 32 fydd unrhyw arian grant nad yw wedi'i ddefnyddio pan ddaw'r hyfforddiant i ben.

35. Caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru dalu am unrhyw gostau sydd yn ei farn ef yn briodol ac sy'n gysylltiedig â chais person am hyfforddiant o dan y Cynllun ac ag asesiad ar ôl hynny yn erbyn y safonau SAC.

36. Cyn rhoi unrhyw grantiau neu ddarparu costau eraill mewn unrhyw flwyddyn ariannol caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyntaf gyhoeddi datganiad yn nodi'r grantiau a'r costau ac yn nodi a ydynt ar gael.

Llofnod

Jane Davidson

Y GWEINIDOG DROS ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

Dyddiad 24 Chwefror 2006

the grant was made in which no training took place. The amount to be required to be returned for any grant made available under the provisions in paragraph 32 will be any grant monies unutilised at the point training ceased

35. The Welsh Assembly Government may pay for any costs it considers appropriate associated with a person's application for training under the Scheme and a subsequent assessment against QTS Standards.

36. Before making any grants or providing other costs in any financial year the Welsh Assembly Government shall first publish a statement setting out the grants and costs and their availability.

Signed

Jane Davidson

MINISTER FOR EDUCATION AND LIFELONG LEARNING

Date 24 February 2006

Atodiad B

Rhaglen Athrawon Graddedig

Canllawiau ar y Weithdrefn Apelio i Hyfforddeion

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i sicrhau bod pob un o'r hyfforddeion ar y Rhaglen Athrawon Graddedig yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson yn erbyn y Safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC). Mae gwaith monitro ac asesu mewnol, a drefnir gan y Corff Argymell (CA), yn rhan bwysig o'r broses hon. Hefyd, caiff yr holl hyfforddeion eu hasesu ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi i wirio barn y CA ynglŷn ag a fodlonwyd y Safonau SAC.

2. Lle bo'r CA yn ddarparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig, bydd yn gwneud ei drefniadau ei hun ar gyfer asesu ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi. Mewn achosion eraill, Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn trefnu asesiad ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi, a gyflawnir gan asesydd allanol wedi'i gontractio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio sicrhau bod yr holl aseswyr allanol y mae'n gyfrifol amdanyn nhw yn gymwys a'u bod yn meddu ar safonau uchel o ymddygiad proffesiynol.

3. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r opsiynau sydd ar gael lle bo'r asesydd o'r farn nad yw hyfforddai wedi cyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer SAC yn yr asesiad cyntaf ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi. Mae'n cwmpasu proses apelio yn ogystal â disgrifio'r camau sydd angen eu hystyried cyn cyflwyno apêl. Dylai CA sicrhau eu bod yn tynnu sylw ysgolion (os nad yw'n CA) a hyfforddeion at y pwyntiau a nodir yn y canllawiau hyn.

4. Dylai CA nodi y bydd angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru **o fewn pedair wythnos i gyhoeddi barn yr asesydd allanol** bod un o'r opsiynau hyn wedi ei ddewis. Disgrifir yr opsiynau posib yn fwy manwl isod. Dyma'r opsiynau:-

   a. dim camau pellach;
   b. hyfforddiant pellach;
   c. asesiad pellach; a
   d. apêl gan yr hyfforddai.

Camau i'w hystyried cyn apelio

Dim camau pellach

5. Mae angen i'r CA, yr ysgol (os nad yw'n CA) a'r hyfforddai ystyried barn yr asesydd nad yw hyfforddai wedi cyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer SAC. Mewn llawer o achosion, bydd angen derbyn bod yr asesydd wedi ystyried yr holl amgylchiadau cyn cyflwyno'i farn; nad yw'n debygol y bydd hyfforddiant pellach yn

debyg o arwain at fodloni safonau SAC; ac nad oes sail ar gyfer asesiad pellach nac apêl lwyddiannus.

6. Mae'n rhaid i'r CA roi gwybod i Bennaeth yr Uned Rhaglenni Athrawon Graddedig, Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ - **o fewn pedair wythnos i gyhoeddi barn yr asesydd allanol** os nad oes bwriad cymryd camau pellach mewn perthynas â'r Rhaglen Athrawon Graddedig.

7. Dylid ystyried barn yr hyfforddai cyn gwneud penderfyniad o'r fath. Fodd bynnag, dylai hyfforddeion nodi na all Llywodraeth Cynulliad Cymru orchymyn CA i barhau i gefnogi rhaglen hyfforddi, neu ei gwneud yn ofynnol i ysgol barhau i gefnogi cyflogaeth hyfforddai.

Hyfforddiant pellach

8. Mewn rhai achosion, lle nad yw hyfforddai wedi cyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer SAC, bydd angen i'r CA, yr hyfforddai a'r ysgol (os nad yw'n CA) ystyried a fyddai hyfforddiant pellach yn galluogi'r hyfforddai i gyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer SAC. Gallai'r hyfforddiant pellach hwn barhau i ddefnyddio'r rhaglen hyfforddi a gymeradwywyd eisoes (er enghraifft, os yw'n glir y bu'r cyfnod hyfforddi gwreiddiol yn rhy fyr a bod y safonau heb eu bodloni mewn sawl maes). Fel arall, gallai o bosibl ganolbwyntio ar un neu ddwy safon nas bodlonwyd gan yr hyfforddai, felly efallai y bydd rhaglen hyfforddi newydd sy'n canolbwyntio ar y meysydd hynny'n unig yn briodol.

9. Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r CA roi gwybod i Bennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig, Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ - **o fewn pedair wythnos i gyhoeddi barn yr asesydd allanol** a oes bwriad cynnal hyfforddiant pellach, a gwneud cais am ganiatâd pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r hyfforddai dderbyn hyfforddiant ar y Rhaglen Athrawon Graddedig. Dylai'r CA nodi a fydd hyfforddiant pellach yn defnyddio'r rhaglen hyfforddi a gymeradwywyd eisoes; neu'n cyflwyno rhaglen hyfforddi newydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w chymeradwyo.

10. Dim ond os yw'r CA, yr ysgol (os nad yw'n CA) a'r hyfforddai am ddilyn y trywydd hwn y dylid cytuno i wneud hynny. Dylid nodi mai'r ysgol fyddai'n talu am y rhaglen hyfforddi bellach, gan gynnwys y costau cyflog, y costau hyfforddi a'r costau sy'n gysylltiedig ag asesiad allanol yr hyfforddai ar ddiwedd y rhaglen hyfforddi.

Asesiad pellach

11. Os yw'r asesydd allanol o'r farn nad yw hyfforddai wedi cyflawni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer SAC ar y cynnig cyntaf, gallai'r CA wneud cais am un asesiad pellach, fel y barno Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddoeth, os yw'n teimlo bod modd ei gyfiawnhau a bod yr ysgol a'r hyfforddai am ddewis yr opsiwn hwn.

12. Gellid cynnal asesiad pellach lle bo'r CA yn cytuno â phenderfyniad gwreiddiol yr asesiad o ystyried yr wybodaeth a oedd ar gael i'r asesydd, ond ei fod yn teimlo bod rhesymau dilys am ailasesu; a'i fod yn hyderus y bydd ailasesu yn cadarnhau bod y safonau SAC yn cael eu bodloni. Gallai'r rhesymau hyn gynnwys amgylchiadau a effeithiodd ar berfformiad yr hyfforddai nad oedd modd eu datguddio cyn yr asesiad allanol am resymau dilys; neu wybodaeth nad oedd ar gael i'r asesydd allanol ond, pe bai ar gael, efallai y byddai wedi effeithio ar ganlyniad yr asesiad allanol (ee: salwch yr hyfforddai, ei absenoldeb, ac ati).

13. Dim ond mewn achosion lle bo cyrff gwahanol yn gyfrifol am hyfforddi ac asesu y mae'r trefniadau hyn yn berthnasol. Nid ydyn nhw'n berthnasol, felly, lle nad yw'r CA yn ddarparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig (hy: dim ond lle cynhelir yr asesiad gan asesydd allanol wedi'i gontractio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae'n berthnasol). Mae hyn oherwydd bod y CA, os yw'n ddarparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig, yn gyfrifol am yr hyfforddi a'r asesu ac felly'n meddu ar yr holl wybodaeth sydd ar gael cyn yr asesiad.

14. Dylid nodi na fydd penderfyniad i gynnal asesiad pellach yn atal apêl ddilynol os yw'r asesiad pellach hwnnw hefyd yn dod i'r casgliad nad yw hyfforddai wedi bodloni'r safon sy'n ofynnol ar gyfer SAC. Fodd bynnag, dim ond yn erbyn yr asesiad pellach, nid yr asesiad gwreiddiol, y gellir cynnal yr apêl ddilynol. Pe bai hyfforddai am apelio yn erbyn yr asesiad gwreiddiol, ni ddylai gytuno i gymryd rhan mewn asesiad pellach, gan na chaniateir apelio yn erbyn yr asesiad gwreiddiol os yw wedi gwneud cais am asesiad pellach.

15. Dylid nodi hefyd fod yn rhaid gwneud cais am asesiad pellach cyn cyflwyno apêl. Nid yw'n bosibl caniatáu asesiad pellach dan y broses a amlinellir ym mharagraffau 11-19 yn dilyn apêl aflwyddiannus.

Y broses asesu pellach

16. Mae'n rhaid i'r CA wneud cais ysgrifenedig am asesiad pellach i Bennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig, Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ **o fewn pedair wythnos i gyhoeddi barn yr asesydd allanol** am yr asesiad gwreiddiol. Hefyd, mae'n rhaid i'r CA wneud cais am estyniad (os yw'r caniatâd gwreiddiol wedi dod i ben neu os oes ganddo lai na deufis ar ôl) i'r caniatâd gwreiddiol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r hyfforddai dderbyn hyfforddiant ar y Rhaglen Athrawon Graddedig.

17. Bydd angen i'r CA gadarnhau bod yr hyfforddai a'r ysgol lle mae wedi'i gyflogi am ddewis yr opsiwn hwn, a dylai roi rhesymau pam fod asesiad pellach yn briodol. Pe bai'r cais hwn yn cynnwys amgylchiadau a effeithiodd ar berfformiad yr hyfforddai nad oedd modd eu datguddio cyn yr asesiad allanol am resymau dilys; neu wybodaeth nad oedd ar gael i'r asesydd allanol ond, pe bai ar gael, efallai y byddai wedi effeithio ar ganlyniad yr asesiad allanol, bydd angen manylu arnynt yn y cais am asesiad pellach. Bydd y deunydd hwn ar gael i'r asesydd sy'n ymwneud â'r cais os rhoddir caniatâd.

18. Archwilir y cais hwn gan un o ymgynghorwyr proffesiynol annibynnol Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwneir penderfyniad ynglŷn â dilysrwydd y cais ar sail ei gyngor. Bydd y cyngor a dderbynnir yn cael ei gynnwys yn y llythyr penderfynu. Caiff asesiad pellach ei drefnu mor fuan â phosib ar ôl caniatáu'r cais (gan ddefnyddio gwahanol asesydd i'r asesiad gwreiddiol os yw'n bosib).

19. Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu am unrhyw hyfforddiant na chyflog pellach a bydd yn rhaid i'r CA dalu am yr asesiad pellach pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi caniatâd.

Apelio

Trosolwg

20. Mewn achosion eithriadol, gallai hyfforddai sydd wedi methu bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer SAC mewn asesiad cyntaf neu asesiad pellach gyflwyno apêl.

21. Dylai hyfforddeion sy'n ystyried apelio nodi mai dim ond un asesiad pellach a ganiateir iddyn nhw yn sgil apêl lwyddiannus. Caiff unrhyw asesiad pellach a gynhelir yn yr amgylchiadau hyn ei gynnal gan asesydd allanol (os cafodd yr asesiad gwreiddiol ei gynnal gan CA sy'n ddarparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig); neu, os cafodd yr asesiad gwreiddiol ei gynnal gan asesydd allanol, gan asesydd allanol gwahanol.

22. Dim ond yn yr amgylchiadau arbennig a restrir isod y caniateir apelio. Nid oes sail i apelio yn erbyn barn broffesiynol yr asesydd allanol ynglŷn ag a yw'r hyfforddai wedi bodloni'r safonau gofynnol, ac ni chaiff y farn hon ei diystyru mewn unrhyw amgylchiadau.

Pryd y caniateir apelio

23. Mae'n rhaid i hyfforddai sydd am ystyried apelio yn dilyn asesiad allanol a ddaeth i'r casgliad nad yw'r safonau SAC wedi eu bodloni allu dangos tystiolaeth o un neu fwy o'r canlynol:-

a. bod anghysondeb yn y weithdrefn a ddefnyddiwyd yn yr asesiad a bod hyn wedi effeithio'n anffafriol ar y canlyniad ee: lle nad yw'r asesydd wedi ystyried neu geisio cael gafael ar yr holl dystiolaeth;
b. nad oedd y CA wedi cyflawni ei ddyletswyddau fel y nodir yn y cynllun hyfforddi ac asesu y cytunwyd arno a bod hyn felly wedi cael effaith ar yr asesiad;
c. bod amgylchiadau wedi effeithio ar berfformiad yr hyfforddai nad oedd modd eu datguddio cyn yr asesiad allanol am resymau dilys; a
d. bod gwybodaeth nad oedd ar gael i'r asesydd allanol ond, pe bai ar gael, efallai y byddai wedi effeithio ar ganlyniad yr asesiad.

Y weithdrefn apelio – hysbysu

24. Mae'n rhaid i hyfforddeion sydd am apelio **hysbysu eu CA a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgrifenedig o fewn pedair wythnos i gyhoeddi barn yr asesydd allanol** ar asesiad cyntaf neu asesiad pellach. Mae'n rhaid i'r hyfforddai gynnwys sail ei apêl ac unrhyw dystiolaeth y mae'r hyfforddai am iddyn nhw ei hystyried. Dylid anfon yr hysbysiad at y canlynol: Pennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig, Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

25. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud copi o gyflwyniad yr apelydd i'r CA a'r ysgol (os yw'n wahanol) **o fewn tri diwrnod gwaith** a gofyn a ydyn nhw am ddarparu gwybodaeth ychwanegol i sicrhau y gellir ystyried holl ffeithiau'r achos yn y broses apelio. Dylid cyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol **o fewn pythefnos i'r cais hwn.** Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn anfon copi o'r holl sylwadau a'r wybodaeth berthnasol ychwanegol a dderbynnir at yr hyfforddai, a gall ychwanegu ei sylwadau a'i gwybodaeth ychwanegol ei hun.

Y weithdrefn apelio – ystyriaeth gan Banel Apeliadau

26. Bydd ymgynghorydd addysgol annibynnol neu gynrychiolydd darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig, a wahoddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl yr angen, a Phennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig **yn cyfarfod fel Panel Apeliadau unwaith i'r bythefnos hon ddod i ben.** Ni fydd yr ymgynghorydd addysgol annibynnol neu gynrychiolydd darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig a ddewisir wedi cyfrannu at raglen hyfforddi'r hyfforddai na'i asesiad mewnol neu allanol ac ni fydd ganddo ddiddordeb personol yn y canlyniad. Ni fydd gan Bennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig unrhyw ddiddordeb personol yn y canlyniad mewn perthynas â'r hyfforddi neu'r asesu; fodd bynnag, os yw'n adnabod yr hyfforddai'n bersonol, bydd aelod arall o'r Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol, o statws uwch neu gyfartal, yn cymryd ei le.

27. Bydd y Panel Apeliadau yn ystyried cyflwyniad ysgrifenedig yr hyfforddai, ac unrhyw dystiolaeth arall a gyflwynir, ac yn dod i benderfyniad ynglŷn ag a oes gan yr hyfforddai sail i'w apêl yn ôl y meini prawf a nodir ym mharagraff 23 uchod. Gall argymell asesiad pellach ar yr adeg hon os yw tystiolaeth yr apelydd mor gryf ag awgrymu mai da o beth, er lles cyfiawnder, fyddai gwneud hynny.

28. Os nad yw'r Panel Apeliadau yn gallu dod i benderfyniad, bydd Pennaeth yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol yn ystyried barn aelodau'r Panel ac yn llunio penderfyniad terfynol y Panel Apeliadau ar sail hynny.

29. Bydd y Panel Apeliadau yn llunio adroddiad cryno a fydd yn amlinellu ei benderfyniad, y rheswm amdano a'r dystiolaeth sy'n sail iddo. Bydd Pennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig yn rhoi gwybod i'r hyfforddai am ganlyniad yr ystyriaeth hon **o fewn wythnos** a rhoddir copi o'r adroddiad iddo. Hefyd, rhoddir copi i'r CA a'r ysgol (os yw'n wahanol). Mae penderfyniad y Panel Apeliadau ar barhau â'r apêl neu beidio yn derfynol.

Y weithdrefn apelio – ystyriaeth gan y Pwyllgor Apeliadau

30. Os bydd y Panel Apeliadau yn cytuno bod sail i'r apêl, caiff yr apêl ei hystyried gan Bwyllgor Apeliadau llawn, **cyn gynted ag y bo'n ymarferol.** Mae Atodiad A yn rhoi manylion am y Pwyllgor.

31. Bydd yr apelydd yn cael gwybod am ddyddiad gwrandawiad yr apêl cyn gynted ag y caiff ei drefnu. Gall yr apelydd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig pellach ar unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarperir gan bartïon eraill dan baragraff 25 uchod **heb fod yn ddiweddarach na thri diwrnod cyn dyddiad gwrandawiad yr apêl.** Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ystyried y cyflwyniadau ysgrifenedig a ddarparwyd eisoes, ynghyd ag adroddiad y Panel Apeliadau a luniwyd o dan y weithdrefn ym mharagraffau 26-29.

32. Os yw'r apelydd am wneud hynny, neu os yw Cadeirydd y Pwyllgor Apeliadau yn ei ystyried yn angenrheidiol, bydd y Pwyllgor Apeliadau yn derbyn tystiolaeth gan yr apelydd yn bersonol. Mewn achos o'r fath, mae gan yr apelydd hawl i gael cyfaill neu gynrychiolydd gydag ef. Ni fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu costau teithio neu unrhyw gostau i'r apelydd neu ei gyfaill neu gynrychiolydd.

33. Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn penderfynu un ai:-

a. bod penderfyniad yr asesydd yn un cywir ac na ddylid ei newid (mewn achosion lle mae'r Pwyllgor Apeliadau o'r farn bod anghysondebau nad oeddent wedi effeithio ar yr asesiad, gallai roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r CA amdanyn nhw); neu

b. fod unrhyw un o'r ffactorau canlynol neu bob un ohonynt wedi effeithio'n anffafriol ar benderfyniad yr asesydd; (i) anghysondeb yn y weithdrefn; (ii) y CA yn methu cyflawni ei ddyletswyddau fel y nodir yn y cynllun hyfforddi ac asesu y cytunwyd arno; (iii) amgylchiadau a effeithiodd ar berfformiad yr hyfforddai nad oedd modd eu datguddio cyn yr asesiad allanol am resymau dilys; (iv) diffyg gwybodaeth berthnasol; ac felly y dylid caniatáu i'r apelydd dderbyn un asesiad pellach.

34. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Apeliadau yn llunio adroddiad pellach a fydd yn nodi penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau; a bydd Pennaeth Uned y Rhaglen Athrawon Graddedig yn anfon yr adroddiad, ynghyd ag argymhellion ynglŷn ag unrhyw gamau pellach, at yr apelydd, y CA a'r ysgol (os yw'n wahanol). Caiff yr adroddiad ei lunio a'i ddosbarthu **o fewn wythnos** i wrandawiad yr apêl. Mae penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau yn derfynol.

Argymhellion asesu pellach gan y Pwyllgor Apeliadau

35. Dylai apelyddion posib nodi nad oes gan y Pwyllgor Apeliadau bŵer cyfreithiol i orchymyn CA i ganiatáu i hyfforddai dderbyn asesiad pellach, neu ei gwneud yn ofynnol i ysgol barhau i gefnogi cyflogaeth hyfforddai er mwyn i asesiad pellach gael ei gynnal. Gwneud argymhellion yn unig yw swyddogaeth y Pwyllgor Apeliadau.

36. Os yw'r Pwyllgor Apeliadau yn argymell asesiad pellach, ni fydd rhaid i'r apelydd dalu amdano. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor Apeliadau yn ystyried a ddylai'r CA dalu am gost asesiad pellach lle bo tystiolaeth bod camau neu ddiffyg camau'r CA wedi cyfrannu at yr anghysondeb neu'r diffyg gwybodaeth yn yr asesiad, a gallai argymell camau o'r fath. Os nad yw'r Pwyllgor Apeliadau yn ystyried y dylai'r CA dalu am gost asesiad pellach, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu amdano.

Atodiad C

Pwyllgor Apeliadau

1. Bydd y Pwyllgor Apeliadau yn cynnwys rhwng tri a phum unigolyn nad ydyn nhw wedi cyfrannu at raglen hyfforddi'r hyfforddai neu ei asesiad mewnol neu allanol ac nad oes ganddyn nhw ddiddordeb personol yn y canlyniad. Gall y Pwyllgor Apeliadau gynnwys unrhyw un neu bob un o'r canlynol: pennaeth adran ysgol, cynrychiolydd mentora ysgol â phrofiad o'r Rhaglen Athrawon Graddedig, cynrychiolydd darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig ac ymgynghorydd addysg annibynnol.

2. Yr ymgynghorydd annibynnol neu gynrychiolydd y darparwr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig fydd cadeirydd y Pwyllgor Apeliadau. Os na chaiff penderfyniad ei gefnogi gan fwyafrif, bydd gan y Cadeirydd dynodedig bleidlais fwrw a fydd hefyd yn derfynol. Mynychir y Pwyllgor gan gynrychiolydd Uned Rhaglenni Athrawon Graddedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fyddai'n gweithredu fel Clerc i'r Pwyllgor Apeliadau (hy: cymryd cofnodion a chynghori ar faterion gweithdrefnol yn ôl y gofyn, ond heb gyfrannu at y drafodaeth neu fynegi barn ar y canlyniad).

3. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwahodd pobl i eistedd ar Bwyllgor Apeliadau yn ôl yr angen ac yn penodi un ohonyn nhw fel Cadeirydd.